

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

Chwefror 2021

1. Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (y Pwyllgor) ar gyllideb ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r meysydd polisi sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Bwriad yr adroddiad hwn yw llywio dadl y Senedd ar y gyllideb ddrafft, a drefnwyd ar gyfer 9 Chwefror 2021.

2. Gwnaethom gymryd tystiolaeth gan y canlynol i lywio ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft:

- Y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (13 Ionawr 2021)
- Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg mewn perthynas â chyllid ar gyfer iechyd meddwl a llesiant (20 Ionawr 2021).¹
- Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth mewn perthynas â chyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol (20 Ionawr 2021).

3. Gwnaethom hefyd adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i Ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft.

¹ Er mwyn osgoi dyblygu gyda gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y materion sydd o fewn ei gylch gwaith yntau, ni wnaethom edrych yn fanwl ar y dyraniadau cyllido sy'n ymwneud â mynediad at gefnogaeth ar gyfer lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, na datblygu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol ymhellach.



2. Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22

4. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, yn hytrach na'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr aml-flwyddyn a gynlluniwyd, cynhaliodd Llywodraeth y DU Adolygiad o Wariant un flwyddyn ym mis Tachwedd 2020.²
5. Ar 21 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion amlinellol ar gyfer cyllideb ddrafft 2020-21, gan nodi'r dyraniadau ar gyfer prif grwpiau gwariant y gyllideb a'i chynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf.
6. Yn *Diogelu, Adeiladu, Newid*, y naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb ddrafft, disgrifiodd Llywodraeth Cymru fuddsoddi yn y GIG a gwasanaethau cyhoeddus fel rhywbeth sy'n ganolog i'w chynlluniau, a nododd:

“Rhaid inni roi'r flaenoriaeth bennaf i amddiffyn bywydau a diogelu pobl Cymru. Mae COVID-19 wedi bod yn ddiestr i lawer o deuluoedd, nid yn unig i'r rhai sydd wedi colli anwyliaid, ond hefyd i'r nifer mawr o bobl eraill sy'n dioddef salwch a chyflyrau cronig oherwydd gohirio eu triniaeth o ganlyniad i'r pandemig”.³

7. Ar 13 Ionawr 2021, rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiweddar i ni am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r pandemig gan dynnu sylw at y pwysau sy'n wynebu'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Dywedodd wrthym ei fod yn gobeithio y gallai'r ffocws yn 2021-22 ddechrau symud i adferiad ariannol a gofal iechyd, ond pwysleisiodd effaith y pandemig ar staff, cost ariannol gwasanaethau cysylltiedig â COVID-19 a “costs in human and financial terms of delaying non-COVID care as well”.⁴

Ein barn ni

8. Mae ein gwaith i graffu ar y gyllideb wedi digwydd yn erbyn cefndir o ansicrwydd sylweddol ynghylch y pandemig COVID-19 a Brexit. Mae'n anochel y bydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22, a'r cynigion cyllideb terfynol a gyflwynir maes o law, wedi cael eu llunio gan gwrs digwyddiadau sy'n newid ac yn esblygu'n gyflym, a'r goblygiadau tymor byr a thymor hir disgwylidig.

² Llywodraeth y DU, *Spending Review 2020*, 25 Tachwedd 2020

³ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2020-21: diogelu, adeiladu, newid* Rhagfyr 2020, t.18

⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 7], 13 Ionawr 2021

- 9.** Ni ddylid tanamcangyfrif maint yr argyfwng iechyd cyhoeddus y mae Cymru yn ei wynebu, naill ai o ran ymateb i heriau uniongyrchol y pandemig, neu'r angen i wneud yr hyn y gellir ei wneud i gynnal y gwasanaethau hanfodol nad ydynt yn gysylltiedig â COVID y mae pobl yn dibynnu arnynt.
- 10.** Credwn na fydd gwir raddfa'r goblygiadau i'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon yn dod yn gwbl glir am rai blynyddoedd. Yn ogystal, mae'r argyfwng hefyd wedi gwaethygu materion sylfaenol, gan gynnwys breuder y sector gofal cymdeithasol, yr anghydraddoldebau iechyd parhaus ledled Cymru, a'r angen am weledigaeth strategol glir i yrru'r gwaith o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau.
- 11.** Hyd yn oed o dan amgylchiadau mwy arferol, mae iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon yn feysydd polisi sylweddol, cymhleth a chydberthynol sydd, ynghyd â meysydd eraill ar draws y Llywodraeth, yn cyfrannu at iechyd a llesiant pobl ledled Cymru. Nid yw'n syndod felly bod ein cylch gwaith fel Pwyllgor yn ymdrin â materion sy'n gyfrifoldeb i sawl Gweinidog a Dirprwy Weinidog, ac sy'n cael eu hariannu gan ddyraniadau o amryw Brif Grwpiau Gwariant, gan gynnwys Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Llywodraeth Leol, ac Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae hyn yn cyflwyno heriau nid yn unig i graffu effeithiol ar gyfran sylweddol o gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru, ond hefyd i eglurder llinellau atebolrwydd am ddyraniadau, gwariant a blaenoriaethu ar draws Prif Grwpiau Gwariant.
- 12.** Mae cwrs y pandemig dros y misoedd nesaf yn parhau i fod yn ansicr, a bydd dewisiadau anodd i'w gwneud ynglŷn â blaenoriaethu adnoddau cyfyngedig. Mae'n iawn bod y ffocws cyfredol ar ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus, ac rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidogion a'u swyddogion am y ffordd y maent wedi ymgysylltu â ni fel Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn.
- 13.** Serch hynny, yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sydd o'n blaenau o ran adferiad ariannol, gwasanaethau a gofal iechyd, yn ddi-os, bydd gwersi i'w dysgu o ran sut mae llywodraethau ledled y DU wedi ymateb i argyfwng amlweddol fel y pandemig, ac i ba raddau y mae eu prosesau cyllidebol, eu prosesau penderfynu a'u trefniadau llywodraethu wedi eu galluogi i symud yn gyflym, gweithredu'n deg, dangos atebolrwydd a gwerth am arian, ac ymateb yn effeithiol ac yn dryloyw i graffu adeiladol.

3. Effaith ariannol y pandemig COVID-19

Effaith yn 2020-21

Iechyd

14. Yn ystod 2020-21 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid iechyd a gofal cymdeithasol ychwanegol o £485m yn wreiddiol i reoli'r ymateb i COVID-19, ac yna yn ddiweddarach cyhoeddodd £800m arall o gyllid sefydlogi ar gyfer y GIG. Fe wnaeth hyn gynyddu cyfanswm y cymorth gyda COVID-19 ar gyfer sefydliadau'r GIG i fwy na £1.3bn. O hyn, dyrannwyd £451m i gostau a ysgwyddwyd o ran staffio, sefydlu ysbytai maes, profi, cyfarpar diogelu personol a defnyddio'r sector annibynnol, gyda'r gweddill i'w ddefnyddio i gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol a chynlluniau lleol.⁵

15. Esboniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen addasu buddsoddiad cyfalaf at ddibenion gwahanol hefyd fel rhan o'r ymateb i COVID-19, gan gynnwys:

“...tua £104m o'r rhaglen tuag at gynlluniau gan gynnwys agor Ysbyty Athrofaol y Grange yn gynnar, y labordy profi ychwanegol a'r cyfarpar ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a buddsoddiadau galluogi digidol ledled Cymru. Mae'r capasiti o 400 o welyau ychwanegol gwerth £33m ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru wedi cael ei gefnogi'n llawn o safbwynt cyfalaf drwy Gyllidebu Strategol”.⁶

16. Cyhoeddodd Archwilio Cymru offeryn data cyllid GIG Cymru ym mis Tachwedd 2020 a oedd yn dangos y gwariant ychwanegol a ysgwyddwyd gan bob un o gyrff GIG Cymru o ganlyniad i'r pandemig.⁷ Ar bwynt hanner ffordd 2020-21, roedd yr offeryn yn dangos cyfanswm cost net yr adroddwyd amdano o £501m ar gyfer gweithgarwch a oedd yn gysylltiedig â COVID-19. Cafodd gwariant a chostau ychwanegol, gan gynnwys £109.4m ar wariant cyflogau; £419.2m ar wariant heblaw cyflogau; a £71.7m o arbedion wedi'u cynllunio na chawsant eu

⁵ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Gweinidogion yn cyhoeddi pecyn sefydlogi gwerth £800m ar gyfer GIG Cymru](#), 5 Awst 2020

⁶ Llywodraeth Cymru, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.4-5

⁷ Archwilio Cymru, [Offeryn data cyllid GIG Cymru](#), 27 Tachwedd 2020

cyflawni eu gwrthbwysu gan ostyngiadau mewn costau gweithredol arfaethedig o £83.3m a llithriant o £16.3m ar fuddsoddiadau wedi'u cynllunio.

Iechyd meddwl

17. Cydnabu'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg effaith y pandemig ar y galw a'r angen am gymorth iechyd meddwl yng Nghymru. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig eglurodd fod cyllid iechyd meddwl ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r GIG, y trydydd sector ac awdurdodau lleol yn ystod 2020-21:

“Yn ystod 2020-21 fe wnaethom fuddsoddi mewn gwell mynediad at gymorth lefel isel, i ymateb i'r lefelau uwch o bryder yn ein poblogaeth. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, rydym yn rhagweld cynnydd mewn angen ar draws pob lefel o wasanaethau iechyd meddwl, oherwydd effaith economaidd-gymdeithasol ehangach y pandemig”.⁸

18. Nodwyd gwasanaethau iechyd meddwl yn gynnar yn y pandemig fel 'gwasanaethau hanfodol', ac ym mis Mawrth 2020, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru chwe mis cyntaf cyllid 2020-21 (£3.5m) o'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer byrddau iechyd lleol (BILLau) i'w galluogi i ymateb i'r pwysau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig. Yn dilyn hynny, gofynnwyd i'r BILLau yn ôl-weithredol ddarparu trosolwg lefel uchel o sut y defnyddiwyd y cyllid. Ymhlith y defnyddiau roedd: staffio ychwanegol o asiantaethau a thrwy adleoli; gofal ychwanegol oherwydd bod gwasanaeth gofal dydd wedi cau; capasiti ychwanegol o ran gofal i gleifion mewnol; ac ailgyflunio modelau gwasanaeth i alluogi darpariaeth ddigidol.⁹ Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wrthym fod £400k o'r ail £3.5m hefyd wedi'i wario ar yr ymateb i COVID-19, gyda'r arian sy'n weddill yn cael ei ddyrannu i flaenoriaethau iechyd meddwl eraill.¹⁰

19. Mae meysydd allweddol eraill o wariant ar iechyd meddwl yn ystod y pandemig wedi cynnwys:

- £5m ar gyfer y dull Ysgol Gyfan / Systemau. Cynyddir yr arian hwn yn 2021-22 i £9.4m.

⁸ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.6

⁹ Fel uchod, t.16

¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 44], 20 Ionawr 2021

- £1.3m i gyflymu darpariaeth Haen 0/1 i gefnogi gwasanaethau mynediad agored, ac £1.4m o gyllid ychwanegol i ymateb i COVID-19 ar gyfer BILL i gefnogi darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl y sector gwirfoddol ar sail ranbarthol. Bydd y cyllid hwn yn parhau i mewn i 2021-22, wedi'i ariannu gan yr £20m ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- £2.2m fel dyraniad unwaith ac am byth yn 2020-21 i ddarparu ar gyfer capasiti ymchwydd mewn perthynas â darpariaeth cleifion mewnol ledled Cymru. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wrthym fod y cyllid ychwanegol wedi bod o gymorth i rai BILLau, ond nad oedd ei angen mwyach oherwydd bod yr uned comisiynu cydweithredol genedlaethol yn sicrhau bod "consistency of approach across health boards in terms of getting access to beds, and that's been particularly true in relation to scouting around to find out where there is excess capacity".¹¹
- £1m i estyn y cynllun cymorth iechyd meddwl ar gyfer meddygon i 60,000 o weithwyr gofal iechyd yng Nghymru er mwyn rhoi mynediad at gymorth i bobl ar y rheng flaen. Bydd y gwasanaeth hwn yn parhau yn ystod 2021-22, a bydd hefyd yn cael ei estyn i weithwyr gofal.
- £50k i gefnogi iechyd meddwl gofalwyr di-dâl.

20. Pwysleisiodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg hefyd fod buddsoddiadau eraill ar draws Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at gefnogi iechyd meddwl a llesiant yn ystod y pandemig, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tai, chwaraeon, a mynediad at fannau gwyrdd.¹²

Gofal cymdeithasol

21. Dyrannodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn y gyllideb atodol gyntaf a'r ail gyllideb atodol yn 2020-21:

- **Cyllideb atodol gyntaf:** £40m i gefnogi costau ychwanegol gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn ystod y pandemig (wedi'i gynnwys o fewn y Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol o £188.5m); a

¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 83], 20 Ionawr 2021

¹² Llywodraeth Cymru, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.16

hyd at £40m i alluogi talu £500 i bob gweithiwr cartref gofal a gweithiwr gofal cartref sy'n darparu gofal personol ledled Cymru.¹³

- **Ail gyllideb atodol:** £306.6m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol, gan gynnwys £27.4m ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i oedolion.¹⁴

22. Wrth ysgrifennu am effaith y pandemig ar awdurdodau lleol yn Lloegr, nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y gallai newidiadau tymor hwy mewn patrymau cymunedol, trefniadau gweithio a siopa effeithio ar yr incwm y bydd awdurdodau lleol yn cael gael o barcio yn y dyfodol.¹⁵ Adroddodd Archwilio Cymru fod awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ystod chwe mis cyntaf 2020-21, wedi nodi “costau ariannol o oddeutu £325 miliwn oherwydd y pandemig (colled incwm o £160 miliwn a gwariant ychwanegol o £165 miliwn).¹⁶ Yn yr un modd, amlygodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) effaith colli incwm a ffioedd. Nododd fod diffygion yn 2020-21 wedi'u hunioni trwy'r Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol, ond rhybuddiodd:

“Heb gymorth parhaol ar gyfer colli incwm bydd angen toriadau gwasanaeth i ddigolledu gan fod ansicrwydd ynglŷn â phryd (ac os) bydd galw yn dychwelyd i lefelau cyn COVID-19”.¹⁷

23. Adroddodd Archwilio Cymru ymhellach ym mis Hydref 2020 fod “rhai cynghorau mewn sefyllfa well yn ariannol na'i gilydd i ymateb i heriau'r pandemig”. Esboniodd fod hyn yn cael ei ddangos gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn sydd gan awdurdodau lleol ledled Cymru, ac i ba raddau y mae balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, wedi bod yn cynyddu neu'n gostwng dros y blynyddoedd diwethaf.¹⁸ Yn ogystal,

¹³ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb atodol 2020-21: nodyn esboniadol*, Mai 2020, t.10-11

¹⁴ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb atodol 2020-21: nodyn esboniadol*, Hydref 2020, t.14

¹⁵ Sefydliad Astudiaethau Cyllid, '[Changing consumer behaviour has big implications for councils, not just businesses, and especially for those in major cities](#)', 21 Rhagfyr 2020

¹⁶ Archwilio Cymru, '[A all Cymru ymdopi ag effaith ariannol y pandemig ar lywodraeth leol?](#)', 5 Hydref 2020

¹⁷ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22](#), 2 Rhagfyr 2020

¹⁸ Archwilio Cymru, [Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol o ganlyniad i bandemig COVID-19](#), Hydref 2020

mae CLILC hefyd wedi codi pryderon ynghylch cyfraddau casglu'r dreth gyngor o ganlyniad i effaith y pandemig ar incwm aelwydydd.¹⁹

Chwaraeon

24. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, disgrifiodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y modd y buwyd yn ceisio taro cydbwysedd yn ystod y pandemig rhwng gwerth chwaraeon ac ymarfer corff i iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol pobl, a'r angen i gadw pobl yn ddiogel yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus.²⁰

25. Roedd yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys pecyn cyllido ar gyfer sector chwaraeon a hamdden Cymru: y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden. Dyrannwyd £12.5m o'r Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden a oedd yn werth £14m yn uniongyrchol i Chwaraeon Cymru, a rheolwyd £1.5m ar gyfer digwyddiadau chwaraeon o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol.²¹ Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym mai bwriad y cyllid oedd "protection for organisations and facilities and protect jobs in the centre". Dywedodd fod Chwaraeon Cymru hyd yma wedi buddsoddi dros £6.2m, ac y byddai taliadau pellach yn cael eu gwneud cyn diwedd 2020-21.²² Defnyddiwyd cyllid hyd yma, er enghraifft, i ddarparu cefnogaeth i glybiau a sefydliadau chwaraeon, darparwyr annibynnol a digwyddiadau chwaraeon sydd wedi wynebu heriau o ganlyniad i'r pandemig.²³

26. Yn ogystal â chyllid penodol i'r sector chwaraeon, nododd Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru, fod y sector hefyd wedi cael cymorth o Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru a chan gynllun cadw swyddi Llywodraeth y DU.²⁴

27. Ar 25 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth fod Cronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr sy'n werth £17.7m yn cael ei sefydlu i "ddarparu cymorth ariannol brys i chwaraeon gwylwyr ar gyfer weddill

¹⁹ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22](#), 2 Rhagfyr 2020

²⁰ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.1

²¹ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb atodol 2020-21: nodyn esboniadol](#), Hydref 2020

²² Cofnod y Trafodion [paragraff 135], 20 Ionawr 2021

²³ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb atodol 2020-21: nodyn esboniadol](#), Hydref 2020

²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 146], 20 Ionawr 2021

cyfnod y gaeaf i sicrhau y bydd chwaraeon yn barod ar gyfer dechrau'r tymor newydd ym mis Medi".²⁵

Cyllideb ddrafft 2021-22

28. Er bod cyllideb ddrafft 2021-22 yn cynnig cynnydd yn y Terfynau Gwariant Adrannol Refeniw ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant o'i gymharu â chyllideb derfynol 2020-21 (wedi'i hailddatgan), y codiadau mwyaf mewn termau absoliwt yw'r rhai ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol (£425m) a'r Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol (£268m). Serch hynny, dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wrth y Pwyllgor Cyllid ar 8 Ionawr 2021 fod y dyraniadau ar gyfer iechyd a llywodraeth leol yn parhau i gael eu hadolygu:

"I'll be certainly looking as to whether further allocations will need to be made in respect of health and local government in particular, as we move forward towards the final budget, and we'll be having some further discussions on the level of funding that we might want to allocate there between now and then, but I would certainly expect to see some additional allocations made".²⁶

29. Roedd *Diogelu, Adeiladu, Newid* yn nodi bod yr Adolygiad o Wariant wedi nodi £766m mewn symiau canlyniadol Barnett ar gyfer 2021-22 o ganlyniad i gyhoeddiadau gwariant cysylltiedig â COVID-19 yn Lloegr mewn meysydd datganoledig. Disgrifiodd y cyllid hwn fel "i'w groesawu ond mae'n sylweddol is na'r £5bn yr ydym wedi'i gael eleni".²⁷

30. Awgrymodd Dadansoddiad Cyllidol Prifysgol Caerdydd y byddai angen talu "cyfran sylweddol" o gostau cysylltiedig â COVID-19 o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ei hun yn 2021-22. Amcangyfrifodd y byddai darparu swm sy'n cyfateb i gyfran y GIG o wariant COVID-19 ar gyfer 2020-21, ynghyd â swm sy'n cyfateb i'r cynnydd y pen yng ngwariant y GIG yn Lloegr, yn golygu y byddai angen £430m o gyllid COVID-19 a chynnydd o £350m yng nghyllideb graidd y GIG.²⁸

31. Roedd *Diogelu, Adeiladu, Newid* yn nodi bod y gyllideb ddrafft wedi dyrannu dim ond £77m o'r symiau canlyniadol Barnett gwerth £766m a ddisgwylir hyd yn hyn, gan egluro mai'r rheswm dros hyn oedd er mwyn cadw hyblygrwydd i

²⁵ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: Cronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr](#), 25 Ionawr 2021

²⁶ Cofnod y Trafodion (Y Pwyllgor Cyllid) [paragraff 11], 8 Ionawr 2021

²⁷ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2020-21, diogelu, adeiladu, newid](#), Rhagfyr 2020, t.iv

²⁸ Dadansoddiad Cyllidol Prifysgol Caerdydd, [Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22: ymateb ysgrifenedig i alwad y Pwyllgor Cyllid am wybodaeth \(Saesneg yn unig\)](#), Rhagfyr 2020, t.5

ymateb i ansicrwydd cwrs y pandemig yn ystod y gaeaf. Nododd, wrth baratoi'r gyllideb derfynol, y bydd Llywodraeth Cymru yn "ystyried pa gyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r GIG a llywodraeth leol sydd ar y rheng flaen yn ein hymateb i'r pandemig".²⁹

32. Gwnaethom drafod gyda phob un o'r Gweinidogion a oeddent yn ceisio dyraniadau ychwanegol i roi cymorth i ymateb i COVID-19 yn 2021-22, ac os felly, beth oedd eu blaenoriaethau ar gyfer cyllid o'r fath. Amlinellir y materion a nodwyd ganddynt isod.

Profion

33. Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod cryn ansicrwydd o ran y galw posibl yn y dyfodol am brofion COVID-19 symptomatig ac asymptomatig yn 2021-22. Tynnodd sylw yn benodol at blismona, addysg a theithio rhyngwladol fel meysydd lle gallai fod angen profion asymptomatig, yn ogystal â phroffion symptomatig parhaus.³⁰

Profi, Orlhain, Diogelu

34. Roedd y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2020-21 yn cynnwys £57m ychwanegol ar gyfer y rhaglen Profi, Orlhain, Diogelu.³¹ Ychwanegwyd £15.7m arall at hyn ym mis Tachwedd 2020 i gynyddu nifer y staff olrhain cysylltiadau o 1,800 i 3,100 i fynd i'r afael â chynnydd disgwylidig yn y galw rhwng mis Rhagfyr 2020 a diwedd mis Mawrth 2021.³²

35. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 yn dyrannu £10m ychwanegol i gynnal y gweithlu olrhain cyswllt yn 2021-22. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd er mwyn cael gwared ar rwystrau i recriwtio ac osgoi sefyllfa lle byddai contractau staff yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021. Esboniodd, pan ddaw'n bosibl i ddechrau llacio cyfyngiadau, y bydd angen canolbwyntio mwy ar olrhain cyswllt. Roedd yn rhagweld y byddai angen i'r gwasanaeth olrhain cysylltiadau barhau "into the summer, and quite probably beyond that as well".³³

²⁹ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2020-21, 16 Rhagfyr 2019* t.iv ac 13

³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 17], 13 Ionawr 2021

³¹ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb atodol 2020-21: nodyn esboniadol*, Mai 2020, t.6-10

³² Llywodraeth Cymru, *Datganiad i'r wasg: £15.7m arall i gynyddu'r gweithlu olrhain cysylltiadau yng Nghymru*, 13 Tachwedd 2020

³³ Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 13 Ionawr 2021

Brechu

36. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod ansicrwydd sylweddol o ran y costau posibl sy'n gysylltiedig â brechu rhag COVID-19, yn rhannol oherwydd nad yw'n glir eto a yw'r brechlynnau cyfredol yn darparu amddiffyniad tymor hir yn erbyn y firws neu a fydd angen rhaglenni brechu pellach.³⁴

Cyfarpar Diogelu Personol

37. Roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagweld anghenion parhaus sylweddol mewn perthynas â chyflenwad o gyfarpar diogelu personol, yn enwedig o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn cofio bod pwysau rhyngwladol ar gadwyni cyflenwi yn gynnwys yn y pandemig wedi arwain at sefyllfa lle'r oedd y GIG yn arwain gweithgarwch caffael cyfarpar diogelu personol. Nododd pe bai pwysau tebyg yn dod i'r amlwg eto, "people would be looking to us to procure [PPE] for other parts of the public service".³⁵

Rheoli'r effaith ar wasanaethau iechyd arferol

38. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, amlygodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y pwysau sydd wedi cronni wrth ddarparu gofal iechyd arferol yn ystod y pandemig:

"The significant backlog created in these eight months is likely to continue to grow to March 2021 and beyond. [...] The current inability to increase resources significantly, in particular staff, and the estate, constraints the NHS's ability to increase capacity at pace to make any real impact on reducing the backlog".³⁶

39. O ran gwasanaethau canser, er enghraifft, amcangyfrifodd y Gweinidog fod o leiaf 13,500 o bobl ag achos tybiedig o ganser a allai gael eu hatgyfeirio rywbryd yn y dyfodol. Esboniodd y gallai'r ôl-groniad hwn, ynghyd ag oedi ar gyfer profion diagnostig, olygu y byddai'n cymryd hyd at 132 wythnos i'r nifer ychwanegol o gleifion gael eu gweld. Gan ddisgrifio hyn fel sefyllfa annerbyniol ("unacceptable"),

³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 9], 13 Ionawr 2021

³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 18], 13 Ionawr 2021

³⁶ Llywodraeth Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22, Rhagfyr 2020, t.6

dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn paratoi cynllun tair blynedd, y bydd cyllid yn 2021-22 yn cael ei gadarnhau ar ei gyfer cyn diwedd 2020-21.³⁷

40. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym “in normal times, we’d have bought activity as well as looking to generate activity within the NHS”, ond nad yw’n bosibl rhagweld o fewn y cyd-destun presennol a fydd capasiti rhydd naill ai yn y GIG mewn rhannau eraill o’r DU neu yn y sector preifat. Nododd y byddai hyn yn cyflwyno heriau nid yn unig o ran dyraniadau cyllid, ond hefyd o ran sut y gellid defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol i fynd i’r afael â’r ôl-groniad.³⁸

Staffio a llesiant staff y GIG

41. Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ychwanegol at fuddsoddi yng nghapasiti staff y GIG, fod angen ystyried llesiant staff ac effaith y pandemig arnynt. Gan dynnu sylw at yr angen i staff gael seibiant, a’r potensial i rai staff ganfod bod eu gyrfaedd yn y GIG yn cael eu byrhau gan y pandemig (“find their NHS careers are shortened by the pandemic”), dywedodd wrthym ei fod yn rhagweld y byddai costau staffio yn cynyddu yn ystod 2021-22:

“So, we face this real challenge where we know the costs are going to increase again through this year, we know the challenge will be great, and we’re doing that quite probably with a more significant need to care for our staff and to invest in the future”.³⁹

Iechyd meddwl

42. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg wrthym nad oedd effaith lawn y trawma sydd wedi bod yn deillio o’r pandemig ar bobl ledled Cymru yn glir eto. Dywedodd y byddai’r bwrdd cyflenwi a goruchwylio ar gyfer iechyd meddwl sydd newydd ei gynnull yn gyfrifol am barhau i adolygu a oedd unrhyw anghenion yn dod i’r amlwg ac a oedd angen unrhyw ddyraniadau cyllid ychwanegol ar gyfer 2021-22. Esboniodd, fodd bynnag, y byddai dull traws-lywodraethol yn ganolog i reoli effaith y pandemig ar iechyd meddwl:

“I think the other thing to underline is that mental health is not something that just should be restricted to health. We’ve got to understand that the causes of mental health are much broader. So, we

³⁷ Fel uchod, t.6-7

³⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 13 Ionawr 2021

³⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 12], 13 Ionawr 2021

need to consider the fact that the kind of money we're putting in to supporting the economy, making sure that there's support for housing, for debt, for support within education—all of those things will add to try to head off, really, the potential for increased need for mental health support. So, that cross-Government approach, that multi-agency approach, I think, is really crucial, but, you're right, we don't know yet what the final outcome of this is going to look like in relation to mental health".⁴⁰

Gofal cymdeithasol

43. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Albert Heaney, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bwysigrwydd y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn ystod 2020-21 i sicrhau mwy o gydnerthedd ariannol yn y sector, ynghyd â diwallu anghenion penodol fel cymryd podiau ar brydles i alluogi pobl i ymweld â chartrefi gofal gan gadw pellter cymdeithasol yn ystod y gaeaf. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod yn rhagweld y byddai dyraniadau pellach yn cael eu gwneud yng nghyllideb 2021-22 ar gyfer gofal cymdeithasol, ond dywedodd nad oedd yn bosibl darparu manylion penodol ar hyn o bryd.⁴¹

Chwaraeon

44. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth mewn tystiolaeth ysgrifenedig y byddai chwaraeon yn parhau i deimlo effaith y pandemig COVID-19 trwy gydol 2021-22. Nododd fod darparu sefydlogrwydd, sicrwydd a hyder i'r sector yn flaenoriaeth allweddol i Chwaraeon Cymru, ond nododd y byddai angen i gynlluniau fod yn hyblyg er mwyn amddiffyn y sector a'i helpu i baratoi ar gyfer dychweliad chwaraeon ac ymarfer corff wrth i gyfyngiadau cenedlaethol ddechrau cael eu llacio.⁴²

45. Pwysleisiodd Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru, yr ansicrwydd parhaus ynghylch cwrs y pandemig, a'r angen i daro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau ar draws pob sector yn y portffolio Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Ychwanegodd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Chwaraeon Cymru a

⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 5-7], 20 Ionawr 2021

⁴¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 73 a 75], 13 Ionawr 2021

⁴² Llywodraeth Cymru, Memorandwm ar gynigion y Cyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22, Rhagfyr 2020, t.6

phartneriaid eraill i ddysgu gwersi o brofiad y pandemig yn 2020-21, ac i nodi ble y gallai fod angen cymryd camau neu ble y gallai fod angen unrhyw arian ychwanegol yn 2021-22.⁴³ Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym nad oedd yn bosibl gwneud ymrwymadau penodol ar hyn o bryd. Nododd fod trafodaethau pellach yn digwydd o fewn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â blaenoriaethu unrhyw ddyraniadau cyllid ychwanegol, ond eglurodd mai ei egwyddor arweiniol oedd:

“...to maintain the level of activity to the extent that we are able to do that under the existing allocation of funds that we have within the overall budget of Welsh Government, and that’s absolutely clear to our partners—that that is our intention”.⁴⁴

Ein barn ni

46. Mae ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon yng Nghymru. Trwy gydol blwyddyn ariannol 2020-21, mae Llywodraeth Cymru, yn gymwys, wedi buddsoddi symiau sylweddol i ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus. Wrth i'r pandemig barhau, mae'n debygol y bydd angen cyllid ychwanegol yn 2021-22.

47. Rydym yn cydnabod ei bod yn anorfod bod cryn ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch y gofynion penodol a fydd yn codi wrth i'r pandemig barhau ac wrth i Gymru ddechrau'r broses adfer. Er enghraifft, credwn, yn ychwanegol at y materion a amlinellir uchod, y bydd angen ystyried y potensial i'r galw am wasanaethau gynyddu, ac i effaith bosibl cyflyrau sy'n dod i'r amlwg fel 'COVID hir' neu syndrom ôl-COVID.

48. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru, ar draws pob portffolio, fod yn rhagweithiol wrth gynllunio ac ymgysylltu â phartneriaid perthnasol i nodi ble y gallai fod anghenion ychwanegol, a phenderfynu sut y gellir datrys anghenion o'r fath. I'r perwyl hwn, byddem yn croesawu manylion pellach gan bob un o'r Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion ar y meysydd yn eu portffolios y maent yn rhagweld y bydd anghenion ychwanegol yn codi ynddynt, y dyraniadau ychwanegol y maent yn eu ceisio yn y gyllideb derfynol, a sut y byddent yn blaenoriaethu cyllid o'r fath i cynorthwyo'r ymateb i'r pandemig ac adferiad tymor hwy y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon.

⁴³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 148 ac 166], 20 Ionawr 2021

⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 145 ac 152], 20 Ionawr 2021

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am y meysydd yn eu portffolios y mae Gweinidogion yn rhagweld y bydd angen cyllid pellach arnynt yn ystod 2021-22, pa ddyraniadau pellach y gellir eu gwneud ar gyfer iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), gofal cymdeithasol a chwaraeon yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22, a sut y bydd dyraniadau o'r fath yn cael eu blaenoriaethu i gynorthwyo'r ymateb i'r pandemig ac adferiad tymor hwy y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chwaraeon.

4. Y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Trosolwg

49. Amlinellodd cyllideb ddrafft 2021-22 Gyfanswm Gwariant a Reolir ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o £9.2bn, cynnydd o 4.2 y cant o'i gymharu â chyllideb derfynol 2020-21 (wedi'i hailddatgan).⁴⁵ Roedd hyn yn cynnwys:

- Refeniw o £8.6bn (cynnydd o 5.2 y cant).
- Cyfalaf o £382.5m (cynnydd o 3.6 y cant).
- Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £148.4m (gostyngiad o 31.8 y cant).

50. O'r £8,682m ar gyfer cyllid refeniw Terfynau Gwariant Adrannol, dyrennir £8,347m (96.1 y cant) ar gyfer darparu gwasanaethau craidd y GIG. Mae hyn yn cynnwys y cyllid ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru, megis BILLau, ymddiriedolaethau'r GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae hyn yn gynydd o £360.5m (4.5 y cant) mewn cyllid Terfynau Gwariant Adrannol ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG o'i gymharu â chyllideb derfynol 2020-21 wedi'i hailddatgan. Mae dyraniadau Terfynau Gwariant Adrannol Refeniw hefyd yn cynnwys:

- £136.4m ar gyfer gwasanaethau'r GIG wedi'u targedu, sy'n cynnwys £133.8m ar gyfer *Cymru Iachach* (cynnydd o £37.9m neu 37.2 y cant).
- £14.9m ar gyfer rhaglenni iechyd cyhoeddus (gostyngiad o £1.2m neu 7.5 y cant).

⁴⁵ Ailddatganwyd cyllideb derfynol 2020–21 i adlewyrchu [newidiadau i bortffolios Gweinidogion](#) ym mis Hydref 2020.

- £27.9m i gefnogi hyfforddiant ac addysg ar gyfer gweithlu'r GIG (cynnydd o £2.1m neu 8.2 y cant).

51. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r newidiadau mewn Terfynau Gwariant Adrannol rhwng cyllideb derfynol 2020-21 (wedi'i hailddatgan) a'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22.

Tabl 1 Terfynau Gwariant Adrannol Cyllideb ddrafft 2021-22 - crynodeb o'r newidiadau o'r gyllideb derfynol 2020-21 (wedi'i hailddatgan)⁴⁶

Newid	Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (£000)
Cyllideb derfynol 2020-21 (diwygiedig), ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol	8,625,943
Addasiadau i'r llinell sylfaen	-5,184
Llinell Sylfaen Ddiwygiedig	8,620,759
Trosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant	-2,863
Dyraniadau COVID-19 o'r cronfeydd wrth gefn	10,000
Dyraniadau eraill o'r cronfeydd wrth gefn	436,576
Cyfanswm y newidiadau	443,713
Dyraniadau cyllideb ddrafft 2021-22 ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol	9,064,472
Newid canrannol ar gyllideb derfynol 2020-21 (diwygiedig) yn nhermau arian parod	5.1 y cant

52. Mae rhagor o wybodaeth am ddyraniadau'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys esboniadau am newidiadau rhwng y gyllideb atodol 2020-21 (Hydref 2020) a chyllideb ddrafft 2021-22, ar gael yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.⁴⁷ Mae hyn yn cynnwys:

- Dyraniadau ac addasiadau COVID-19 yn ystod y flwyddyn yn 2020-21 a gafodd eu cynnwys yn y gyllideb atodol fel 'darparu gwasanaethau craidd', ond nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghyllideb ddrafft 2021-22.

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb ddrafft 2021-22: llinellau gwariant yn y gyllideb](#), Rhagfyr 2020

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22](#), Rhagfyr 2020

- Dyraniadau newydd ar gyfer gwasanaethau craidd yn 2021-22, gan gynnwys: £10m ar gyfer olrhain cysylltiadau; tua £230m ar gyfer twf y GIG; £20m ar gyfer iechyd meddwl o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynyddu'r cymorth ar draws ystod o feysydd i gydnabod effaith y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant; £82m o ddyraniadau eraill ar gyfer y GIG gan gynnwys genomeg a gofal sylfaenol; £16.3m ar gyfer AaGIC fel rhan o £17.5m ar gyfer y gweithlu; a £10m ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru i ariannu gwasanaethau diogelu iechyd newydd.

Ein barn ni

53. Byddem yn croesawu manylion pellach gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar eu strategaeth ar gyfer buddsoddi'r dyraniad cyfalaf o £382.5m yng nghyllideb ddrafft 2021-22.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am ei strategaeth ar gyfer buddsoddi'r dyraniad cyfalaf o £382.5m yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghyllideb ddrafft 2021-22.

5. Perfformiad ariannol byrddau iechyd

54. Fe gyflwynodd *Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014* ddwy ddyletswydd ariannol statudol ar gyfer BILlau:

- 1.** Rheoli eu hadnoddau o fewn terfynau cymeradwy neu fantoli'r cyfrifon, dros gyfnod treigl o dair blynedd.
- 2.** Paratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig dros gyfnod treigl o dair blynedd a hwnnw'n cael ei gymeradwyo gan y Gweinidogion.

55. Ym mis Gorffennaf 2020, adroddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod pedwar BILI (Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Betsi Cadwaladr, BIP Caerdydd a Fro, BIP Hywel Dda a BIP Bae Abertawe) wedi cronni diffyg cyfun o dros £600m yn y chwe blynedd ers rhoi Deddf 2014 ar waith.⁴⁸

56. Mae Tabl 2 yn dangos yr alldro blynyddol yr adroddwyd arno am y tair blynedd ariannol ddiwethaf, a'r sefyllfaoedd diweddaraf yr adroddwyd arnynt yn

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: Cyfrifon y GIG 2019-20](#), 6 Gorffennaf 2020

ystod y flwyddyn ac a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer BILlau yn 2020-21. Mae hyn yn dangos bod BILlau yn adrodd am ddiffyg cyfun yn ystod y flwyddyn o bron i £48m ac yn rhagweld diffyg ar ddiwedd y flwyddyn o dros £90m ar gyfer 2020-21. Mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r sefyllfa yn gynharach yn y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, ar ddiwedd mis 5 (Awst) ar gyfer y mwyafrif o BILlau a mis 4 (Gorffennaf) ar gyfer Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr, roedd y rhagolygon yn dangos diffyg cyfanredol ar ddiwedd y flwyddyn o bron i £450m ar gyfer 2020-21.

Tabl 2 Sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn ac a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd lleol yn 2020-21⁴⁹

Bwrdd Iechyd	Alldro hyd yn hyn 2020-21 (Gor-) / tanwariant (£m)	Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn 2020-21 (Gor-) / tanwariant (£m)	Alldro 2019-20 (Gor-) / tanwariant (£m)	Alldro 2018-19 (Gor-) / tanwariant (£m)	Alldro 2017-18 (Gor-) / tanwariant (£m)
Aneurin Bevan	0.4	0.0	0.0	0.2	0.2
Betsi Cadwaladr	(19.8)	(40.0)	(38.7)	(41.3)	(38.8)
Caerdydd a'r Fro	0.4	0.0	0.1	(9.9)	(26.9)
Cwm Taf Morgannwg <small>50</small>	0.6	0.0	0.9	0.0	0.0
Hywel Dda	(14.6)	(25.0)	(34.9)	(35.4)	(69.4)
Powys	0.0	0.0	0.1	0.1	0.1
Bae Abertawe	(14.8)	(25.4)	(16.3)	(9.9)	(32.4)
(Gor-) / tanwariant net	(47.8)	(90.4)	(88.8)	(96.2)	(167.2)

⁴⁹ Adroddiadau cyllid i BILlau ar gyfer mis 7 (Hydref 2020) ac eithrio Betsi Cadwaladr sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ym mis 6 (Medi 2020).

⁵⁰ O 1 Ebrill 2019, trosglwyddodd y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o BIP Abertawe Bro Morgannwg i BIP Cwm Taf.

57. Mae'r tri BILL sy'n rhagweld diffygion ar gyfer 2020-21 ar hyn o bryd - Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Bae Abertawe - i gyd yn ddarostyngedig naill ai i ymyriadau wedi'u targedu neu i fonitro mwy manwl. Mae Cwm Taf Morgannwg hefyd yn ddarostyngedig i fesurau arbennig mewn perthynas â'i wasanaethau mamolaeth ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer ansawdd a llywodraethu, ond ar hyn o bryd mae'n nodi tanwariant o £0.6m ac yn rhagweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon yn 2020-21.

58. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Hywel Dda a Betsi Cadwaladr wedi cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru:

- Ym mis Mai 2018, mewn ymateb i adolygiad a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan Deloitte, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol £27m yn ychwanegol o gyllid cylchol ar gyfer Hywel Dda. Dywedodd y Gweinidog fod yr arian ychwanegol hwn "yn gosod y Bwrdd Iechyd ar sylfaen gyllido deg o gymharu â'r byrddau iechyd eraill [...] Mae hyn hefyd yn sylfaen gadarn i'r Bwrdd ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau".⁵¹
- Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gymorth strategol ar gyfer Betsi Cadwaladr. Roedd hyn yn cynnwys talu am ei ddiffyg hyd at £40m y flwyddyn, cyllid i wella gofal heb ei drefnu ac adeiladu rhaglen gofal wedi'i gynllunio gynaliadwy o £30m y flwyddyn, £12m i roi cymorth i wella perfformiad a gweithredu'r strategaeth iechyd meddwl, a chymorth i adeiladu capasiti ehangach yn y sefydliad. Nododd y Gweinidog ei fod yn bwriadu parhau â'r cymorth hwn yn 2021-22, 2022-23 a 2023-24.⁵²

59. Amlinellodd Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru, yr ymagwedd at gynaliadwyedd ariannol a disgyblaeth a fabwysiadwyd o fewn y gwasanaeth iechyd cyn y pandemig. Disgrifiodd weithio ar y cyd - o fewn pob BILL a chydag Uned Cyflenwi Ariannol Llywodraeth Cymru - i oleuo'r modd y dyrennir ac y defnyddir adnoddau, i gael y gwerth mwyaf o wariant, i fesur canlyniadau, ac i reoli amrywiad. O ran BILLau Hywel Dda a Bae Abertawe - y rhagwelir y bydd y naill a'r llall ohonynt yn gorwario yn 2020-21 - esboniodd y Cyfarwyddwr Cyllid y

⁵¹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: adolygiad cwbl gynhwysfawr o wasanaethau gofal iechyd BIP Hywel Dda](#), 23 Mai 2018

⁵² Llywodraeth Cymru, [Datganiad llafar: cymorth strategol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr](#), 3 Tachwedd 2020

bu cynllun a disgwyliad clir (“clear plan and expectation”) cyn y pandemig y byddai'r dyraniadau adnoddau a gwaith gan y BILLau i wella eu defnydd o adnoddau wedi eu galluogi i symud i sefyllfa lle byddent yn mantoli'r cyfrifon.⁵³

60. Dywedodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth Cymru dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, wrthym fod yn rhaid i ddisgyblaeth ariannol, cynllunio ariannol a dyfarniadau ariannol ymateb i anghenion cynllunio gwasanaethau, cynllunio'r gweithlu, a llwybrau a phrofiadau cleifion. Dywedodd fod angen i'r agweddau hyn ar gynllunio fod yn hyblyg yn ystod y pandemig, ond eu bod wedi gwella ar y cyfan, gan hwyluso mwy o ddisgyblaeth ariannol a chydnerthedd ar draws y GIG. O ran BILLau unigol, yn enwedig y rhai sy'n rhagweld gorwariant, pwysleisiodd yr angen i weithio gyda hwy i ddeall eu pwysau ariannol a gwella perfformiad ariannol heb gael effaith niweidiol ar ansawdd na chanlyniadau cleifion:

“Communities and, no doubt, Members would have concerns and worries if the wrong kind of judgements were being made but actually have that very visible impact on services. So, that's why we're monitoring very carefully, we're tracking things through, we're sharing experiences, because we do want it to be about sustainable choices that improve outcomes and improve services for the population”.⁵⁴

61. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrthym ei fod wedi gweithio'n agos yn ystod y pandemig gyda holl gyrrff y GIG i adnabod a thracio'r sefyllfa ar wasanaethau COVID-19 a gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19, dyrannu cyllid, a datblygu cynlluniau i ddarparu sefyllfa sy'n sefydlog yn ariannol. Dywedodd y byddai mwyafrif y BILLau o ganlyniad yn mantoli'r cyfrifon, ac y byddai BILL Hywel Dda a Bae Abertawe yn gwneud y canlynol:

“...overspend by their starting deficits that they had been describing before the actions that we would have put in place to drive those additional deficits down. So, that will leave us in an end-of-year position of a £49 million overspend in two organisations, and we will obviously use that then to see what progress we can make into the future”.⁵⁵

62. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod cyllid ychwanegol yn ystod 2020-21 wedi galluogi mwy o sefydliadau'r GIG i weithredu “within their resource limits,

⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 29-30], 13 Ionawr 2021

⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 37-31], 13 Ionawr 2021

⁵⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 31], 13 Ionawr 2021

with the deficits reducing in a year when continued strain has been placed on NHS Wales services and their associated costs". Fodd bynnag, rhybuddiodd hefyd y byddai angen arbedion pellach maes o law, ond y byddai ansicrwydd parhaus y pandemig yn effeithio ar allu BILLau i gyflawni effeithlonrwydd.⁵⁶

63. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym nad oedd yn disgwyl i gyrff iechyd gyrraedd y targed arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant yn 2020-21 nac yn 2021-22, ond cydnabu y byddai angen i'r GIG sicrhau arbedion yn y tymor hwy gan hefyd fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran triniaethau o ganlyniad i'r pandemig.⁵⁷ Dywedodd wrthym mai ei ddull gweithredu fu "deliberately try to budget for an idea of those health boards that may overspend", ond nododd fod disgyblaeth ariannol gyffredinol wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf gan olygu o ganlyniad:

"...the NHS is in better shape to manage this, even with the extraordinary demands that have come in, and in the next year, we'll need to make some provision for potential overspends, but we've also—as the committee's aware—looked again at the allocation formula, so growth spending is now allocated on an updated basis".⁵⁸

64. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai cyllid twf i BILLau yn cael ei ddyrannu o dan fformiwla ddiwygiedig Townsend, er ei fod yn cydnabod "the theory is always more straightforward than delivering that against the practical reality of how organisations receive budgets and are used to dealing with those means".⁵⁹

Ein barn ni

65. Rydym yn cydnabod y pwysau a fu ar BILLau yn ystod 2020-21, a'r heriau y mae hyn wedi'u cyflwyno yn benodol i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o 1 y cant. Er bod cwrs y pandemig yn parhau i fod yn ansicr, rydym yn disgwyl i'r pwysau ar y gwasanaeth iechyd barhau i mewn i 2021-22 a'r tu hwnt. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd yn briodol yn y tymor bod model cyllido GIG Cymru yn cael ei gynnal ar sail cyllid twf termau real blynyddol ac arbedion effeithlonrwydd 1 y cant, ond na fyddai'n

⁵⁶ Conffederasiwn GIG Cymru, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22](#), Tachwedd 2020

⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 13 Ionawr 2021

⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 23-24], 13 Ionawr 2021

⁵⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 58], 13 Ionawr 2021

rhesymol disgwyl i arbedion o'r fath gael eu cyflawni'n llawn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

66. Serch hynny, mae anallu parhaus rhai BILLau, gan gynnwys y rhai sy'n cael ymyriadau wedi'u targedu gan Lywodraeth Cymru, i gyflawni eu dyletswyddau ariannol statudol yn parhau i fod yn destun pryder.

67. Rydym yn croesawu'r arwydd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd yn gwneud, fel isafswm, ddatganiad ysgrifenedig ar y sefyllfa ariannol a ragwelir ar sail cynlluniau blynyddol BILLau ar gyfer 2021-22 neu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig tair blynedd wedi'u diweddarau, ac y bydd ei ddatganiad yn nodi pa BILLau sydd wedi cyflawni eu dyletswyddau ariannol, pa rai sy'n rhagweld diffygion, a beth fydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hwy.

68. Nodwn fod cyllid i BILLau ar gyfer 2021-22 wedi'i ddyrannu yn unol â fformiwla ddiwygiedig Townsend, ond byddem yn croesawu manylion pellach gan y Gweinidog ar weithrediad ac effaith y fformiwla newydd, a sut y bydd yn sicrhau bod gan BILLau ledled Cymru'r adnoddau cywir i ddarparu'r gwasanaethau y mae ar eu poblogaethau eu hangen.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion fformiwla ddiwygiedig Townsend a'i heffaith ar yr adnoddau sydd ar gael i bob BILL. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut mae'r fformiwla ddiwygiedig yn ystyried gwahanol anghenion ledled Cymru, dadansoddiad o'r goblygiadau ar gyfer yr adnoddau ariannol sydd ar gael i bob BILL sy'n nodi'r gwahaniaeth rhwng yr adnoddau a ddyrennir i bob BILL dan y fformiwla ddiwygiedig o'i gymharu â'r fformiwla flaenorol, ac eglurhad sy'n nodi sut y bydd unrhyw newidiadau yn y dyraniadau i bob BILL yn cael eu cyflawni.

6. Iechyd meddwl

Trosolwg

69. Fe wnaeth creu rôl newydd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn hydref 2020 arwain at drosglwyddo rhai Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg newydd ar ôl yr ail gyllideb atodol ym mis Hydref 2020. Mae cyfanswm o bron i £110m wedi'i drosglwyddo o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae cyllid sylweddol sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl yn dal i gael ei gadw yn y Llinell

Wariant yn y Gyllideb Dyraniadau Craidd y GIG o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

70. Mae dyraniadau cyfalaf o oddeutu £5m wedi'u trosglwyddo o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys y gyllideb gyfalaf ar gyfer camddefnyddio sylweddau, sy'n cefnogi'r gofynion cyfalaf parhaus i ddarparu'r seilwaith ar gyfer darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

71. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 yn cynnwys £42m ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl. Daw hyn â chyfanswm y cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn 2021-22 i £783m, sy'n cynnwys:

- Y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: £33m ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl craidd y GIG, gan ddod â chyfanswm gwariant iechyd meddwl o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i £746.8m.
- Y Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg: £9.4m ychwanegol i gefnogi llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan ddod â chyfanswm y cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant hwn i £36.3m.⁶⁰

72. Disgrifiodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y cyllid o £783m ar gyfer iechyd meddwl fel swm nad yw'n bitw ("a not-insignificant amount"), ond nododd y byddai'n cyflwyno papur i'r Cabinet cyn bo hir ar y dull traws-lywodraethol o ymdrin ag iechyd meddwl:

"...to talk about how we need to be moving this on together, understanding that this is a cross-Government approach that we need to consider, and, obviously, that everybody, then, should be marshalling the budgets within their own portfolios to try and address this issue as well".⁶¹

⁶⁰ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.3

⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 9], 20 Ionawr 2021

Y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

73. Mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl craidd y GIG yn dal i fod yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Esboniodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ei bod hi a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol ar y cyd am benderfyniadau ynghylch gwariant o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag iechyd meddwl. Dywedodd wrthym fod y broses o wneud penderfyniadau ar y cyd yn gweithio'n dda, ac er bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail y blaenoriaethau a nodwyd yn y *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2019-22*, ei chyfrifoldeb hi oedd sicrhau bod y blaenoriaethau'n cael eu cyflawni.⁶²

74. O fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rhoddir cyllid wedi'i glustnodi yn flynyddol i BILlau fel rhan o'r Linell Wariant yn y Gyllideb Dyraniadau Craidd y GIG. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wrthym:

"Er bod y cyllid hwn wedi'i neilltuo, mae disgwyl i fyrddau iechyd lleol reoli risgiau a chyfleoedd yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â'r cyllid hwn ochr yn ochr â'u dyraniadau yn ôl disgrisiwn ar gyfer gwasanaethau eraill y GIG. Am y rheswm hwn, nid yw'n ymarferol dadgyfuno'r cyllid hwn o'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG, ac mae'n parhau i fod o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol."⁶³

75. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 yn cynyddu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl o £711.9m yn 2020-21 i £726.8m. Mae'r newidiadau'n cynnwys y canlynol:

- £0.5m ar gyfer anhwylderau bwyta.
- £1.3m ar gyfer gofal iechyd carchardai.
- £0.1m ar gyfer cymorth gan gymheiriaid mewn gwasanaethau rhywedd.
- £13.0m ar gyfer twf mewn costau craidd 2021-22.

76. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod £20m ychwanegol wedi'i neilltuo o fewn y Prif Grŵp

⁶² Cofnod y Trafodion [paragraffau 11 ac 19], 20 Ionawr 2021

⁶³ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.3

Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwelliannau pellach mewn gwasanaethau iechyd meddwl, ac y “bydd elfen y GIG o'r cyllid hwn yn cael ei ychwanegu at ddyraniad a glustnodir y bwrdd iechyd lleol yn ystod 2021-22”.⁶⁴ Dywedodd wrthym ei bod yn disgwyl i'r £20m gael ei ddefnyddio fel a ganlyn:

- £4m ar gymorth iechyd meddwl Haen O.
- £7m ar gyfer meysydd blaenoriaeth yn y cynllun Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (gan gynnwys anhwylderau bwyta, iechyd meddwl amenedigol, therapïau seicolegol a chefnogaeth CAMHS).
- £6m ar gyfer cymorth argyfwng.
- £3m ar gyfer clinigau cof.⁶⁵

77. Mae'r dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer iechyd meddwl yn cynrychioli'r isafswm y dylai BILLau ei wario ar ddiwallu anghenion iechyd meddwl eu poblogaethau. Mae'n cynnwys ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol, yn yr ysbyty, gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gweithgarwch gofal sylfaenol, a chyffuriau ar bresgripsiwn. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wrthym fod gwariant BILLau yn sylweddol uwch na'r dyraniad wedi'i glustnodi (“significantly in excess of the ringfenced allocation”) ar iechyd meddwl, gyda gwariant ar iechyd meddwl yn cynrychioli tuag 11 y cant o gyfanswm gwariant y GIG. Dywedodd mai ffocws allweddol iddi hi oedd sicrhau bod yr arian a ddyrannwyd i iechyd meddwl (ar draws y Prif Grwpiau Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg) yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir ac yn darparu profiadau cadarnhaol i gleifion.⁶⁶

78. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid wrthym fod dull newydd yn cael ei ddatblygu i ddyrannu a monitro gwariant ar iechyd meddwl a fyddai'n sicrhau mwy o dryloywder ac yn galluogi'r dull clustnodi i ddod i ben. Nododd y byddai'r dull newydd yn galluogi gwell dealltwriaeth am ddyrannu adnoddau ar lefel clystyrau meddygon teulu, awdurdodau lleol a BILLau, a fyddai'n hwyluso trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn ogystal â darparu golwg fwy eglur ar sut y mae byrddau iechyd yn dyrannu adnoddau o fewn eu hardal (“a clearer line of sight about how health boards are allocating resources within their area”). Amlinellodd hefyd waith i wella dealltwriaeth am sut roedd adnoddau'n cael eu

⁶⁴ Fel uchod, t.4

⁶⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 20 Ionawr 2021

⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 25-26], 20 Ionawr 2021

defnyddio i sicrhau canlyniadau i gleifion mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant ar draws yr ystod lawn o wasanaethau iechyd meddwl. Meddai:

“So, there's still a lot of work to be done, but I think there is an intention now to put mental health properly into our resource allocation formula, and we'll achieve that quite quickly now, I think, subject to the Minister agreeing that, and then we really need to focus on utilisation and outcomes a lot more and strengthen a lot of our measurement and a lot of our data capture in that area”.⁶⁷

Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

79. Mae'r cyllid Llinell Gwariant yn y Gyllideb gwerth £26.86m ar hyn o bryd ar gyfer iechyd meddwl o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn cynnwys:

- £3.0m o Gyllid ar gyfer Rhaglenni Iechyd Meddwl.
- £7.1m ar gyfer *Cymru Iachach - Iechyd Meddwl*.
- £16.7m ar gyfer y cyllidebau Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl.

80. Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn cynnwys £9.4m ychwanegol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer iechyd meddwl o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg i £36.3m. Mae hyn yn cynnwys £5.4m ar gyfer CAMHS a £4m ar gyfer y Dull Systemau Cyfan.

Blaenoriaethau gwariant

81. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg fod ei blaenoriaethau ar gyfer gwariant yn 2021-22 wedi'u nodi yn *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2019-22* fel y'i diweddarwyd ym mis Hydref 2020 i adlewyrchu effaith COVID-19 ar iechyd a llesiant pobl yng Nghymru a'r galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl.⁶⁸ Mae'r cynllun cyflawni yn nodi'r blaenoriaethau canlynol:

⁶⁷ Cofnod y Trafodion [paragraffau 28-31], Ionawr 2021

⁶⁸ Llywodraeth Cymru, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.4-5

- Cymorth adfer iechyd meddwl a llesiant COVID-19, gan gynnwys ehangu sylweddol ar gefnogaeth iechyd meddwl Haen O lefel isel ar draws y boblogaeth.
- Gwaith wedi'i dargedu ar atal a gweithredu traws-lywodraethol ar benderfynyddion ehangach iechyd meddwl a llesiant.
- Gwella mynediad at gymorth ar gyfer iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc;
- Gwella gofal argyfwng a gofal y tu allan i oriau
- Gwella mynediad, ansawdd ac ystod y therapïau seicolegol;
- Gwella mynediad ac ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol; a
- Gwella ansawdd a thrawsnewid gwasanaethau.⁶⁹

82. Yn ystod ein sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, buom yn trafod nifer o feysydd polisi a blaenoriaethau gwariant penodol, gan gynnwys y rhai a archwilir isod.

Gwasanaethau iechyd meddwl Haen O

83. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig nododd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, yn ystod 2020-21, fod cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu i'r sector gwirfoddol a phartneriaid allweddol eraill i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl Haen O/I. Roedd hyn yn cynnwys £1.3m i gyflymu darpariaeth a chefnogi gwasanaethau mynediad agored, ac £1.4m o gyllid ymateb i COVID-19 i gefnogi gwasanaethau'r sector gwirfoddol.⁷⁰

84. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y byddai hyd at £4m o'r cyllid ychwanegol o £20m yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn 2021-22 i gefnogi gwelliannau pellach mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymorth Haen O.⁷¹ Nododd, er mwyn sicrhau bod dyraniad grantiau i sefydliadau trydydd sector ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn adlewyrchu'r cyllid

⁶⁹ Llywodraeth Cymru, *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Cynllun Cyflawni 2019-22*, Hydref 2020

⁷⁰ Llywodraeth Cymru, *Craffu ar Cyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22*, Rhagfyr 2020, t.14

⁷¹ Cofnod y Trafodion [paragraffau 47 a 53], 20 Ionawr 2021

ychwanegol, y pwysau disgwylidig ychwanegol a'r asesiadau wedi'u diweddarau o'r hyn oedd ei angen, fod y contractau darparwyr trydydd sector presennol wedi'u estyn tan fis Medi 2021 i'w gwneud yn bosibl cynnal rownd gynigion arall ym mis Ebrill 2021.⁷²

85. Gan dynnu sylw at enghreifftiau sy'n gynnwys llinell gymorth CALL ar gyfer cyfeirio pobl at ffynonellau cymorth priodol a system SilverCloud sy'n darparu rhaglenni therapiwtig a seico-addysg ar-lein, disgrifiodd y Gweinidog wasanaethau o'r fath fel rhai sylfaenol ("fundamental"):

"...so that anybody who needs that early intervention can access support very quickly. Because the danger at the moment is that it's directed into the medical service, and it's not necessarily the appropriate direction".⁷³

86. Yn ogystal, pwysleisiodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yr angen i wasanaethau fod yn weladwy, ac i bobl wybod sut y gallant gael gfael ar y cymorth y mae ei angen arnynt. Nododd y Gweinidog ei bod wedi ei gwneud yn ofynnol i BILLau sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn glir, a'i bod wedi ysgrifennu at holl Aelodau'r Senedd i dynnu sylw at y gwasanaethau sydd ar gael yn ardal pob BILL.⁷⁴ Dywedodd wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Diverse Cymru i hyrwyddo argaeledd gwasanaethau Haen O yng nghymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, y mae eu defnydd o wasanaethau cymorth iechyd meddwl yn isel ar y cyfan. Cydnabu'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y byddai'n bwysig monitro effeithiolrwydd gwasanaethau o'r fath, a hysbysodd y byddai adroddiad gwerthuso ar SilverCloud yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2021. Dywedodd y byddai hyn yn cynnwys ystyried hygyrchedd y gwasanaeth i grwpiau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol a diwylliannol.⁷⁵

87. Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22, cododd Hafal bryderon ynghylch dargyfeirio cyllid tuag at ofal iechyd meddwl lefel is yn hytrach na gwasanaethau gofal eilaidd.⁷⁶ Cydnabu'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yr angen i sicrhau bod gwasanaethau yn bodoli i gefnogi pobl â materion iechyd meddwl mwy difrifol, ond pwysleisiodd

⁷² Cofnod y Trafodion [paragraffau 47, 53 a 62], 20 Ionawr 2021

⁷³ Cofnod y Trafodion, [paragraff 49], 20 Ionawr 2021

⁷⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 81], 20 Ionawr 2021

⁷⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 77], 20 Ionawr 2021

⁷⁶ Hafal, [Cynigion cyllideb drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22](#), Rhagfyr 2020

fod y cyllid ar gyfer gwasanaethau Haen O yn gyllid ychwanegol ac nid ar draul gwasanaethau lefel uwch:

“...I know that Hafal is very keen to make sure that we focus our attention and retain our attention on those more vulnerable groups, perhaps—on prisoner mental health, on BAME community mental health, on those areas where we know that there’s an issue. But we’re not stepping away from; we’re just making sure we provide additional funding through that tier O support”.⁷⁷

Gofal mewn argyfwng

88. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg wrthym fod cyllideb ddrafft 2021-22 wedi cynyddu’r cyllid ar gyfer gofal mewn argyfwng o tua £3.4 miliwn dros y tair blynedd diwethaf i oddeutu £6 miliwn mwy na thebyg (“about £3.4 million over the past three years [...] probably to about £6 million”). Pwysleisiodd y byddai gwella gofal mewn argyfwng, er enghraifft trwy ddatblygu llwybrau argyfwng cliriach a chydraddoldeb ag argyfyngau iechyd corfforol, yn galw am weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda’r heddlu, awdurdodau lleol a BILlau, a gwaith traws-lywodraethol, gan gynnwys mewn perthynas â materion cymdeithasol a llesiant.⁷⁸

Cronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl

89. Yn 2020-21 roedd cyfanswm y Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn £7m. Ar ddechrau'r pandemig, rhyddhawyd hanner yr arian hwn i BILlau i roi cymorth gyda’r ymateb i COVID-19. Fodd bynnag, dyrannwyd y mwyafrif o’r ail £3.5m i feysydd blaenoriaeth fel y bwriadwyd, gan gynnwys: CAMHS; gwasanaethau anhwylder bwyta, iechyd meddwl amenedigol; therapïau seicolegol; gofal mewn argyfwng a’r tu allan i oriau; ac ymyrryd yn gynnar mewn seicosis. Mae'r cyllid bellach wedi'i seilio yn y dyraniad iechyd meddwl wedi'i glustnodi o fewn prif ddyraniad y GIG ar gyfer 2021-22.⁷⁹ Dywedodd y Gweinidog a'i swyddogion wrthym y bu'n ofynnol i BILlau ddangos tystiolaeth i Lywodraeth Cymru sut mae eu gwariant mewn perthynas â'r ail £3.5m yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r cynllun cyflawni.⁸⁰

⁷⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 85], 20 Ionawr 2021

⁷⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 85], 20 Ionawr 2021

⁷⁹ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Cyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.14

⁸⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 38-39], 20 Ionawr 2021

90. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 yn nodi y bydd y Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn cael ei dyblu i £14m. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wrthym y dylid defnyddio'r cyllid hwn i gyd i gyflawni blaenoriaethau allweddol yn hytrach nag ymateb i COVID-19, ac "if we need additional funding in terms of the COVID response, then we'll go back to the Finance Minister and ask for that".⁸¹

Dementia

91. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, cydnabu'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg effaith y pandemig ar wasanaethau dementia a phobl â dementia. Dywedodd wrthym "there will be a need to do some catch-up work in relation to memory assessment services, and that's why, in that service improvement funding, we will be earmarking maybe £2 million or so specifically for that, to make up the lost ground".⁸²

92. Amlinellodd Cynllun Gweithredu Dementia 2018-2022 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018 gamau allweddol i wella cymorth ar gyfer y grŵp hwn. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y byddai £10m o gyllid cylchol y flwyddyn o'r gyllideb Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl yn parhau i gael ei ddyrannu i gefnogi gweithrediad y cynllun. Bydd y mwyafrif o'r arian (dros £9m) yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar sail fformiwla ariannu i helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Dementia.⁸³ Cydnabu'r Gweinidog fod amrywiad yn y ffordd yr oedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu, a dywedodd wrthym:

"I think that is something that we need to keep an eye on. Some are far more mature in terms of their working relationships than others, so we'll keep an eye on that, but I guess, in terms of the memory assessment services, then a lot of that we will be able to manage within the NHS and perhaps keep slightly more control over it".⁸⁴

⁸¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 43], 20 Ionawr 2021

⁸² Cofnod y Trafodion [paragraff 94], 20 Ionawr 2021

⁸³ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.5

⁸⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 96], 20 Ionawr 2021

Awtistiaeth

93. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg fod gwella gwasanaethau i bobl awtistig, rhieni a gofalwyr yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.⁸⁵ Dywedodd wrthym fod cyllid ar hyn o bryd o fewn cyllideb ddrafft 2021-22 ar gyfer tîm awtistiaeth Llywodraeth Cymru, y gwasanaeth awtistiaeth integredig, a dau brosiect a fydd yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ac Autism Spectrum Connections Cymru.⁸⁶

94. Disgwylir i'r Cod Ymarfer Statudol terfynol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth a'r canllawiau cysylltiedig gael eu cyhoeddi ddechrau 2021, cyn i'r Cod gael ei roi ar waith o fis Medi 2021.⁸⁷ Esboniodd y Gweinidog y byddai'n asesu a oedd angen unrhyw arian ychwanegol ar gyfer rhoi'r Cod ar waith yn dilyn canlyniad adolygiad o'r galw a'r capasiti.⁸⁸

Unigrwydd ac arwahanrwydd

95. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol ym mis Chwefror 2020. Dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wrthym mewn tystiolaeth ysgrifenedig y byddai £0.75m ar gael i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth yn 2021-22, ac, ar ben hynny, y byddai Cronfa Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol yn cael ei sefydlu ac mai ei hamcan fyddai “test out innovative approaches to tackling loneliness and social isolation and/or scale up promising approaches to reaching out to those who are already lonely and/or socially isolated”.⁸⁹ Dywedodd fod y gronfa wedi'i rhagweld yn wreiddiol fel cronfa a fyddai'n werth £1.4m dros dair blynedd, ond:

“...because of the issues, the difficulties of rolling that out, £400,000 of that funding for this year was repurposed, and that was used for the Friend in Need initiative [...] delivered by Age Cymru on our behalf [...] it's been transformative for many people within Wales, in particular those

⁸⁵ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Lles a Iaith Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.6

⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 102], 20 Ionawr 2021

⁸⁷ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Lles a Iaith Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.6

⁸⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 102], 20 Ionawr 2021

⁸⁹ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.18-19

people who are on their own; I know that some people have been provided with iPads and it has transformed their lives—really connecting for the first time. Obviously, now, we'll, hopefully, get back on track with Connected Communities and the broader strategy that we set out initially".⁹⁰

Ein barn ni

96. Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, gwnaethom dynnu sylw at ein pryderon ynghylch lefel yr wybodaeth a oedd ar gael i'n galluogi i graffu'n effeithiol ar wariant ar iechyd meddwl. Roedd ein pryderon wedi'u canoli ar "ddiffyg dadansoddiad manwl o'r dyraniad cylchog a'r anghysondeb yn y ffordd y mae byrddau iechyd yn casglu ac yn darparu gwybodaeth".⁹¹ Rydym yn croesawu, felly, yr arwydd gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a'i swyddogion bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn y dull o fonitro gwariant ar iechyd meddwl, a chysylltu gwariant â chanlyniadau. Rydym yn edrych ymlaen at y tryloywder ychwanegol a fydd yn deillio unwaith y bydd y wybodaeth hon ar gael.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r amserlenni sy'n dynodi erbyn pryd y mae'n disgwyl bod â'r trefniadau diwygiedig ar waith ar gyfer olrhain a monitro gwariant iechyd meddwl gan BILlau.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth fanwl am wariant BILlau ar iechyd meddwl, ac effaith gwariant o'r fath ar ganlyniadau a phrofiad cleifion. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o lefelau'r gwariant ar wasanaethau ar gyfer oedolion a'r rhai ar gyfer plant a phobl ifanc.

97. Ym mis Rhagfyr 2020 gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar effaith y pandemig COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant. Gwnaeth ein hadroddiad, a dynnodd ar dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid, nifer o argymhellion y credwn y byddent yn cyfrannu at wella iechyd meddwl a llesiant pobl yng Nghymru.⁹² Edrychwn ymlaen at ymateb Llywodraeth Cymru maes o law.

⁹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 62-62], 20 Ionawr 2021

⁹¹ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, *Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21*, Ionawr 2020, t.24

⁹² Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, *Ymchwiliad i effaith Covid-19 a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant*, Rhagfyr 2020

98. Rydym yn croesawu'r £42m ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft, gan gynnwys yr £20m ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl, ond nodwn fod y rhan fwyaf o hyn eisoes wedi'i ddyrannu i gyflawni blaenoriaethau allweddol o fewn *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni*.

99. Yn ystod ein gwaith ar effaith y pandemig ar iechyd meddwl, clywsom dystiolaeth am “ddatgysylltiad rhwng sicrwydd byrddau iechyd ynghylch darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y pandemig, a'r problemau sylweddol wrth geisio cael mynediad at wasanaethau sy'n cael eu hadrodd gan gleifion a gwasanaethau rheng flaen”.⁹³ Gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth inni o'r camau yr oedd yn eu cymryd i sicrhau bod trefniadau adrodd ac atebolrwydd cadarn ar waith, a bod mynediad cyson at ofal mewn argyfwng sy'n briodol i oedran defnyddwyr ledled Cymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn parhau i bryderu a yw cyllideb ddrafft 2021-22 yn cynnwys digon o adnoddau i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn gallu ymateb yn hyblyg ac yn effeithiol i gynnydd yn y galw o ganlyniad i'r pandemig.

100. Mae'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg i gynyddu gwelededd a hygyrchedd gwasanaethau Haen 0 yn gadarnhaol. Fodd bynnag, byddem yn croesawu rhagor o fanylion am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ansawdd a chysondeb gwasanaethau o'r fath ac yn sicrhau bod gan feddygon teulu hyder ynddynt. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch lefel y cyllid a fydd ar gael i ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl Haen 0 yn y trydydd sector yn 2021-22.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ynghylch sut y bydd yn monitro ansawdd a chysondeb gwasanaethau iechyd meddwl Haen 0, a sut y bydd yn sicrhau bod gan feddygon teulu hyder ynddynt.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a fydd y £4m llawn a nodwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl Haen 0 o fewn y cyllid o £20m yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi gwelliannau pellach mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr trydydd sector yn rownd gynigion Ebrill 2021.

101. Rydym yn croesawu'r cyllid parhaus o £10m y flwyddyn yng nghyllideb ddrafft 2021-22 i gefnogi'r broses o roi Cynllun Gweithredu Dementia 2018-22 ar

⁹³ Fel uchod, t.26

waith. Fodd bynnag, nodwn fod y mwyafrif o'r arian hwn, dros £9m, yn cael ei ddyrannu trwy fformiwla ariannu i Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Byddem yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ynghylch sut y bydd gwariant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei fonitro a'i werthuso i sicrhau ei fod yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach am sut y bwriedir i'r modd y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwario'r £9m a ddyrannwyd ar gyfer rhoi Cynllun Gweithredu Dementia 2018-22 ar waith yn cael ei fonitro a'i werthuso i sicrhau ei fod yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

102. Nodwn y bydd cynllun cyflawni newydd ar gyfer y Cod Ymarfer Statudol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, ond na ddyrannwyd unrhyw gyllid ychwanegol yn y gyllideb ddrafft at y diben hwn. Byddem yn croesawu sicrwydd pellach gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y bydd adnoddau ychwanegol ar gael os bydd angen i sicrhau y gellir rhoi'r Cod ar waith heb gael effaith niweidiol ar wasanaethau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu i gyflawni'r Cod Ymarfer Statudol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth, gan gynnwys sicrwydd y bydd adnoddau ychwanegol ar gael os bydd angen.

103. Clywsom gan lawer o randdeiliaid yn ystod ein gwaith ar effaith y pandemig ar iechyd meddwl am y niwed sy'n gysylltiedig ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Rydym yn croesawu sefydlu'r Gronfa Unigrwydd ac Arwahanrwydd i roi cymorth i gyflawni Strategaeth Unigrwydd ac Arwahanrwydd Llywodraeth Cymru, ond byddem yn croesawu gwybodaeth bellach am sut y bydd y gronfa'n gweithredu a sut y bydd ei heffeithiolrwydd yn cael ei hasesu.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am weithrediad y Gronfa Unigrwydd ac Arwahanrwydd, a sut y bydd effeithiolrwydd y Gronfa yn cael ei asesu.

7. Gofal cymdeithasol

Cyllid craidd llywodraeth leol

104. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei *Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol dros dro* (y setliad llywodraeth leol dros dro) ar 22 Rhagfyr 2020. Ar ôl addasu ar gyfer 'trosglwyddiadau i mewn', mae'r setliad yn cyflwyno cynnydd o £172m neu

3.8 y cant yn y cyllid craidd ar y cyfan ar gyfer llywodraeth leol o'i gymharu â 2020-21.⁹⁴ Bydd awdurdodau lleol hefyd yn cael cyllid cyfalaf cyffredinol o £198m, gan gynnwys £20m ar gyfer parhad y grant adnewyddu priffyrdd cyhoeddus a chymorth ar gyfer teithio llesol, £54m o grant cyfalaf cyffredinol sylfaenol hanesyddol, a £35m ychwanegol o grant cyfalaf cyffredinol.

105. Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi dweud wrth awdurdodau lleol bod yr holl gyllid wedi'i ddyrannu ymlaen llaw, ac nad yw setliad 2021-22 yn cynnwys 'cyllid gwaelodol'.⁹⁵ Mae CLILC wedi croesawu'r setliad llywodraeth leol dros dro, er i arweinydd grŵp annibynnol CLILC alw am gyllid gwaelodol i ddiogelu awdurdodau lleol a fydd yn derbyn codiadau cyllid is na'r cyfartaledd.⁹⁶

Pwysau ariannol

106. Yn y sylwadau a gyflwynodd mewn ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid, nododd CLILC y pwysau posibl ar wariant llywodraeth leol dros y tair blynedd ariannol nesaf. Nododd £279m o bwysau sylfaenol ar gyfer 2021-22, sy'n cynnwys:

- £174m (63 y cant) y gellir ei briodoli i gostau'r gweithlu, gan gynnwys costau comisiynu gofal cymdeithasol.
- £72m y gellir ei briodoli i gostau'r galw, "sydd yn bennaf oherwydd gofal cymdeithasol".
- £33m y gellir ei briodoli i bwysau chwyddiannol eraill.⁹⁷

107. Mae'r pwysau cronus yn codi i £822m erbyn 2023-24, gyda phwysau ychwanegol o £140m ar gyfer gofal cymdeithasol yn 2021-22 yn codi i £420m erbyn 2023-24.⁹⁸

⁹⁴ Llywodraeth Cymru, [Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2021-22](#), 22 Rhagfyr 2020

⁹⁵ [Llythyr oddi wrth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at arweinwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol Cymru](#), 22 Rhagfyr 2020

⁹⁶ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Datganiad i'r wasg: cynghorau yn croesawu 3.8% o hwb cyllidebol ar gyfer 2021-22](#), 22 Rhagfyr 2020

⁹⁷ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22](#), 2 Rhagfyr 2020

⁹⁸ Fel uchod

Darpariaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22

108. Mae'r setliad llywodraeth leol dros dro heb ei neilltuo i raddau helaeth, er ei fod yn cynnwys cynnydd o £10m yng Ngrant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn 2021-22, gan wneud cyfanswm y Grant yn £50m ar y cyfan.⁹⁹ Dywedodd y Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym y byddai'r grant yn cael ei ddsbarthu gan ddefnyddio cyfrannau tybiannol y sector gwasanaethau cymdeithasol personol o fformiwla cyllido'r setliad llywodraeth leol, ac y byddai'n "enable local authorities to deliver the core social services—that is for children and adults—and it will address [...] the current workforce pressures, support the sustainability of the social care workforce, and support sustainable social services".¹⁰⁰

109. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, amlygodd Llywodraeth Cymru hefyd y dyraniadau cynyddol canlynol ar gyfer 2021-22:

- Cynnydd yn y cyllid craidd cymorth grant i Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) o £2m, gan olygu bod cyfanswm y cyllid yn £22.4m ar y cyfan. Y pwrpas a nodwyd yw ehangu ei swyddogaeth reoleiddio, rhoi cymorth i gyflwyno strategaeth y gweithlu, a rhoi strategaethau ymchwil a data ar waith.
- £1.5m ychwanegol ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithredu ym maes gofal cymdeithasol.
- Dyraniad o £1.2m ar gyfer gofalwyr, gan gynnwys £1m ar gyfer partneriaethau gofalwyr BILLau a £0.2m ychwanegol ar gyfer y prosiect cardiau adnabod Gofalwyr Ifainc Cenedlaethol.

Sefydlogrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol

110. Mewn tystiolaeth i'n hymchwiliad i effaith y pandemig COVID-19 ar ofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl, amlygodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) bryderon ynghylch breuder darparwyr gofal cymdeithasol (cyn ac yn ystod y pandemig), a'r risgiau sy'n gysylltiedig â brigau pellach mewn COVID-19. Galwodd am weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu pecynnau cymorth ar gyfer darparwyr gofal

⁹⁹ Llywodraeth Cymru, *Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2021-22*, 22 Rhagfyr 2020

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 65], 13 Ionawr 2021

cymdeithasol ac am sicrhau bod cyllid hyblyg ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i ymateb i amgylchiadau lleol.¹⁰¹ Mae pryderon tebyg wedi dod i'r amlwg o Arolwg Cylch Gwariant Gwasanaethau Lleol diweddar CLILC o awdurdodau lleol yng Nghymru, a ganfu faterion penodol mewn perthynas â'r effaith ar wasanaethau gofal cymdeithasol a arweinir gan y galw a breuder posibl darparwyr gofal preifat llai a gomisiynir gan gynghorau.¹⁰²

111. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y pwysau a oedd wedi bod ar y system gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig. Dywedodd wrthym fod y cymorth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru trwy'r Gronfa Galedi i Awdurdodau Lleol wedi osgoi sefyllfa lle byddai unrhyw gartrefi gofal yn cau, ond disgrifiodd y sefyllfa fel un anodd ("difficult") ac ansefydlog ("precarious").¹⁰³

112. Mae CLILC wedi croesawu'r buddsoddiad ychwanegol mewn gofal cymdeithasol yn ystod 2020-21, a'r sefydlogrwydd dros dro y mae wedi'i ddarparu i alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, galwodd am ddiwygio cyllid gofal cymdeithasol yn y tymor hwy, y dadleuodd fod ei angen i fynd i'r afael â phryderon parhaus ynghylch cynaliadwyedd y system iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan gynnwys "gwendidau o ran cyllid a sefydlogrwydd y farchnad, y galw cynyddol ar y sector, angen cynyddol heb ei ddiwallu, materion swyddi gwag, cynllunio wrth gefn a'r angen am safonau cyson a mesurau ansawdd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol".¹⁰⁴

113. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod y pandemig wedi amharu ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer sgwrs genedlaethol ynghylch dyfodol cyllid gofal cymdeithasol ("national conversation around the future of social care funding"). Dywedodd ei fod yn rhagweld y bydd ymchwil gan Lywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi cyn etholiad y Senedd yn 2021 er mwyn goleuo trafodaeth gyhoeddus ac ystyriaeth i'r materion hyn, ond na fyddai penderfyniad cyn etholiad y Senedd yn 2021 ynghylch y ffordd ymlaen.¹⁰⁵

¹⁰¹ [C87 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

¹⁰² Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22](#), 2 Rhagfyr 2020

¹⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 13 Ionawr 2021

¹⁰⁴ Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Llywodraeth Cymru 2021-22](#), 2 Rhagfyr 2020

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 89-91], 13 Ionawr 2021

Ein barn ni

114. Mae breuder y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn destun pryder sylweddol. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn hanfodol i'r rhai sy'n eu cael, ac maent hefyd yn hanfodol o ran ategu a bod yn bartner i wasanaethau iechyd yng Nghymru. Byddai canlyniadau amharu'n sylweddol ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn ddifrifol.

115. Rydym yn croesawu'r cynnydd yn y setliad llywodraeth leol dros dro a Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, ond bydd yn rhaid aros i weld i ba raddau y bydd hyn yn gwella cynaliadwyedd cyffredinol y sector gofal cymdeithasol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, roedd angen cyllid ychwanegol sylweddol i sefydlogi a chefnogi'r sector gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig, ac nid yw'n glir eto a fydd unrhyw ddyraniadau ychwanegol yn cael eu gwneud yn y gyllideb derfynol.

116. Fel y dywedasom yn ein hadroddiad cyntaf ar effaith y pandemig COVID-19 ar iechyd a gofal cymdeithasol:

“...mae angen dybryd i ddiwygio'r system ac am drefniant cyllido cynaliadwy a hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n cydnabod yn llawn bwysigrwydd y gwasanaeth a'r staff sy'n gweithio ynddo”.¹⁰⁶

117. Rydym yn cydnabod heriau dod i gonsensws ar ddyfodol cyllid gofal cymdeithasol, ond mae'r mater hwn wedi bod yn cael ei drafod ers degawdau ar lefel Cymru a'r DU, a hyd nes y caiff ei ddatrys, mae'n anodd gweld sut y gellir gosod y sector ar sylfaen gynaliadwy a sefydlog.

Cymorth i ofalwyr

118. Yn ystod ein gwaith ar effaith y pandemig, clywsom gan Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru am y pwysau sylweddol y mae gofalwyr wedi bod yn eu hwynebu. Dywedodd Gofalwyr Cymru wrthym fod nifer y gofalwyr di-dâl wedi cynyddu o oddeutu 400,000 i oddeutu 680,000. Roedd Gofalwyr Cymru yn priodoli hyn i “restrictions on movement and reductions in services, and in some cases, complete closure of services”.¹⁰⁷ Amlygodd y Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr yr angen i ofalwyr gael eu cefnogi, ond nododd y gall fod yn her cynllunio gwasanaethau cymorth a sicrhau hyder gofalwyr pan fydd

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, *Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1*, Gorffennaf 2020, t.81

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 4], 9 Rhagfyr 2020

contractau ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn rhai tymor byr, o un flwyddyn i'r llall.¹⁰⁸

119. Dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ei bod hefyd yn poeni am y pwysau ar ofalwyr di-dâl, a'i bod yn archwilio'r posibilrwydd o ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer gofal seibiant.¹⁰⁹ Nododd, yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol yn y setliad llywodraeth leol dros dro, y gellid ei ddefnyddio'n rhannol ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol i ofalwyr,¹¹⁰ fod y gyllideb ddrafft hefyd yn cynnwys:

- £2.6m mewn gwariant dros dair blynedd i Gofalwyr Cymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan trwy Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'r Trydydd Sector (a fydd yn ei ail flwyddyn yn 2021-22).
- Cronfa cymorth i ofalwyr sy'n werth £1m, a weinyddir yn lleol gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr i ddarparu hyd at £300 yr un i ofalwyr unigol yr oedd angen help arnynt i dalu am "things that didn't necessarily cost a huge amount of money; they needed, perhaps, help with electronic goods, white goods, fuel, paying for the heating, and even food, in some cases".
- Cyllid gofalwyr blynyddol o £1m ar gyfer Billaau i'w cynorthwyo i weithio gyda'u partneriaethau gofalwyr lleol.¹¹¹

120. Fe gyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 21 Ionawr 2021 y byddai cynnydd o £250k yn y Gronfa Cymorth i Ofalwyr i gyfanswm o £1.25m yn 2020-21.¹¹²

121. Mewn perthynas â gofalwyr ifainc, pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y dylent allu parhau i gael gafael ar gymorth trwy eu hawdurdodau lleol neu ddarparwyr yn y trydydd sector. Yn ogystal, nododd fod y broses o gyflwyno'r cerdyn adnabod Gofalwyr Ifainc wedi dechrau: roedd un

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 117], 9 Rhagfyr 2020

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 81], 13 Ionawr 2021

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 78-79], 13 Ionawr 2021

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 80-81], 13 Ionawr 2021

¹¹² Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r Wasg: Cynnydd o chwarter miliwn o bunnoedd i'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr](#), 21 Ionawr 2021

awdurdod lleol eisoes wedi lansio'r cerdyn, gydag 14 arall â chynlluniau i wneud hynny erbyn diwedd mis Mawrth 2021.¹¹³

Ein barn ni

122. Mae cannoedd ar filoedd o ofalwyr di-dâl ledled Cymru yn rhoi gofal a chymorth angenrheidiol i'w teulu a'u ffrindiau. Maent wedi chwarae, ac yn parhau i chwarae, rhan hanfodol yn yr ymateb i'r pandemig. Mae gofalwyr di-dâl wedi wynebu heriau sylweddol trwy gydol y pandemig, a chredwn ei bod yn hanfodol eu bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau cymorth y mae eu hangen arnynt.

123. Yn ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2019 ar effaith *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* mewn perthynas â gofalwyr, gwnaethom dynnu sylw at y ddibyniaeth barhaus ar y trydydd sector ar gyfer darparu gwasanaethau i ofalwyr, a gwnaethom gyfres o argymhellion gan gynnwys galw am: ddarparu cyllid digonol; trefniant cyllido hirdymor, cynaliadwy gan ddarparu cyllid bob tair blynedd o leiaf; cynnwys y trydydd sector mewn modd ystyrlon wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau; ac un llif cyllid ar gyfer gwasanaethau gofalwyr i ddisodli'r system gyfredol o grantiau unigol.¹¹⁴ Derbyniodd Llywodraeth Cymru lawer o'n hargymhellion, mewn egwyddor o leiaf,¹¹⁵ ond serch hynny rydym yn dal i bryderu i ba raddau y mae'r canlynol yn wir am Lywodraeth Cymru yn ôl y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“...very dependent on [the third sector] in terms of reaching out to the carers, being closely in touch with the carers, and indicating to us what are those issues that matter so much to carers”.¹¹⁶

124. Rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddir i ofalwyr gan sefydliadau'r trydydd sector, ond credwn, yn ogystal â chael cymorth gan sefydliadau'r trydydd sector, bod yn rhaid i ofalwyr gael cymorth digonol trwy wasanaethau a chyllid craidd cynaliadwy awdurdodau lleol.

¹¹³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 83-84], 13 Ionawr 2021

¹¹⁴ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, *Gofalu am ein dyfodol: ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr*, Tachwedd 2019, argymhellion 25-28

¹¹⁵ Llywodraeth Cymru, *Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr*, Ionawr 2020

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 80], 13 Ionawr 2021

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am gyfran y gwariant ar wasanaethau i ofalwyr di-dâl sydd (1) yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol a (2) yn cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol i gael eu darparu gan y trydydd sector, a bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a yw'r arian a ddyrennir yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofalwyr o ran cymorth yn effeithiol.

8. Trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

125. Cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gostau dynol sylweddol y pandemig a'r pwysau yr oedd wedi'u rhoi ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod y gallai rhai o'r diwygiadau a gyflwynwyd neu a gyflymwyd gan yr ymateb i'r pandemig helpu i gyflawni agenda bolisi Cymru *lachach* Llywodraeth Cymru:

“So, the pandemic has had a huge human cost, and yet it's driven by necessity a range of systems change that we probably would have wanted to see happen. So, the broad reform package in 'A Healthier Wales' is still—I think it's being 'revalidated' is the phrase that keeps on being used, and I think that's a fair expression, and within that, we've got investment priorities we may or may not come to later on, so we may actually be able to use money to advance reform for a purpose, and not just reform for necessity. So, not every single aspect of the pandemic means that the health and care service will be in a worse shape, but actually, the demand and the pressure we're under is more significant, so the challenges and the impetus of the reform will be even greater”.¹¹⁷

Integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol

126. Sefydlwyd y Gronfa Gofal Integredig yn 2014-15. Mae ei ffocws ar ysgogi/galluogi gweithio integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector, a darparwyr annibynnol. Dyrannodd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 £129m ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig. Ym mis Chwefror 2018, ategwyd y Gronfa Gofal Integredig gan y Gronfa Trawsnewid, a sefydlwyd fel rhan o'r ymateb Cymru *lachach* i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd y Gronfa Trawsnewid yn cynnwys £100m i gefnogi “modelau di-dor

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 19], 13 Ionawr 2021

newydd o iechyd a gofal cymdeithasol lleol a ddarperir trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol”.¹¹⁸ Yn wreiddiol, bwriadwyd i'r cyllid â therfyn amser gael ei ddarparu dros ddwy flynedd.

127. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru wrthym mai pwrpas yr arian oedd “demonstrate the alternative service example, the alternative pathway, to make sure that this is about transformation”.¹¹⁹ Fodd bynnag, mae gwerthusiadau o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid wedi nodi pryderon ynghylch i ba raddau yr oedd prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif ffrydio er mwyn bod yn sbardun i drawsnewid gwasanaethau yn ehangach.¹²⁰

128. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd â'r prif gyfrifoldeb am gael a defnyddio cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Disgrifiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel cyfryngau cyflenwi allweddol (“key delivery vehicles”) ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy. Cydnabu fod angen gwaith pellach i wireddu potensial Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ond awgrymodd y byddai sianelu mwy o adnoddau trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn hwyluso integreiddio agosach.¹²¹ Cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bu rhai heriau o ran gweithio integredig, yn enwedig yn ystod camau cychwynnol y pandemig. Fodd bynnag, dywedodd mai ei farn ef oedd bod gweithio mewn partneriaeth yn ymarferol rhwng sefydliadau iechyd a llywodraeth leol:

“...made a significant move forward in every part of the country, because of the requirements of the pandemic and the way it's forced people to change the way they work”.¹²²

129. Ym mis Awst 2020, estynnwyd y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid am 12 mis ychwanegol (tan fis Ebrill 2022). Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r cyllid ychwanegol, sef £89m o refeniw a £40m o gyfalaf i'r Gronfa Gofal Integredig a £50m o refeniw i'r Gronfa Trawsnewid yn “rhoi sefydlogrwydd i'r

¹¹⁸ Llywodraeth Cymru, *Cronfa Trawsnewid 2018-21 - Canllawiau*

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 13 Ionawr 2021

¹²⁰ Swyddfa Archwilio Cymru, *Y Gronfa Gofal Integredig*, 17 Gorffennaf 2019; Llywodraeth Cymru, *Y Gronfa trawsnewid iechyd a gwasanaethau cymdeithasol 2018 i 2021: gwerthusiad canol cyfnod*, 2 Medi 2020; Llywodraeth Cymru, *Defnydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o gyllidebau cyfun ar gyfer llety mewn cartrefi gofal*, 24 Tachwedd 2020

¹²¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 13 Ionawr 2021

¹²² Cofnod y Trafodion [paragraff 87], 13 Ionawr 2021

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn golygu bod gwasanaethau iechyd a gofal allweddol yn gallu parhau er mwyn ein cefnogi drwy gyfnod heriol y gaeaf sydd o'n blaenau, a gosod sylfeini cadarn ar gyfer ein camau sefydlogi ac ailadeiladu".¹²³

130. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i ni, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd cam nesaf prosiectau'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid yn canolbwyntio ar "symud dulliau integredig llwyddiannus o brosiectau tuag at fusnes craidd a chyllid craidd a gofal cymdeithasol".¹²⁴ Dywedodd wrthym y byddai oddeutu £9m yn cael ei ddyrannu i ddatblygu cymunedau ymarfer "to make sure that we're not just identifying, but then moving across and scaling up what works".¹²⁵ Yn ogystal, gan ddisgrifio 2021-22 fel "a transitional year for projects and programmes supported by the transformation fund", dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion Papur Gwyn ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynigion i gryfhau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a "give them many more tools to drive the integration process forward".¹²⁶

Gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg

131. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, disgrifiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio digidol ac wedi'i alluogi gan dechnoleg fel rhywbeth sy'n rhan hanfodol o'r ffyrdd newydd o weithio y bydd eu hangen i fynd i'r afael ag ôl-groniadau a symud gwasanaethau allan o ysbytai. Tynnodd sylw at fwy o ddefnydd o dechnoleg ddigidol yn ystod y pandemig, gan gynnwys: ymgynghoriadau fideo ar y plattform Attend Anywhere; cynlluniau peilot i ystyried defnyddio'r plattform ar gyfer fferylliaeth, deintyddiaeth ac optometreg; a chyflenwi tabledi electronig i'w defnyddio mewn cartrefi gofal.¹²⁷ Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, ailadroddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y pandemig wedi cyflymu camau i fabwysiadu technoleg

¹²³ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: ymestyn y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid](#), 24 Awst 2020

¹²⁴ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.8

¹²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 110], 13 Ionawr 2021

¹²⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 13 Ionawr 2021

¹²⁷ Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.9

ddigidol, a dywedodd y byddai hyn yn y tymor hwy yn ategu gwasanaethau gofal sylfaenol wyneb yn wyneb.¹²⁸

132. Roedd *Diogelu, Adeiladu, Newid* yn nodi y bydd £25m yn cael ei ddyrannu i raglenni ataliol a rhaglenni digidol, gan gynnwys data cenedlaethol, wardiau digidol, rhagnodi a gofal llygaid. Roedd hefyd yn nodi:

“Yn ystod y pandemig, mae'r defnydd o dechnoleg wedi'i gyflymu ledled Cymru, nid yn unig drwy sefydlu ffyrdd newydd o weithio ond hefyd drwy wella mynediad at gyngor gofal iechyd gartref. Mae'r ffyrdd newydd hyn o weithio yn darparu gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty ac yn dangos sut y gall technoleg ddigidol rymuso gofal cleifion”.¹²⁹

133. Roedd y gyllideb ddrafft hefyd yn cynnwys £10m ychwanegol i gefnogi sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig (AIA) newydd GIG Cymru ar gyfer Digidol, £2.8m ar gyfer Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus a £4.9m ar gyfer Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru.

134. Cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fyddai'r buddsoddiad hwn yn datrys pob un o'r heriau o fewn y system, ac amlygodd ddewisiadau y byddai angen eu gwneud ynglŷn â chyflymder buddsoddi mewn technoleg ddigidol, a rôl trawsnewid a gwella digidol o ran trawsnewid gwasanaethau. Dywedodd fod y buddsoddiad yn yr AIA newydd ar gyfer Digidol yn cynrychioli newid sylweddol, ond y byddai'r sefydliad newydd yn adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.¹³⁰

Gofal sylfaenol

135. Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad ym mis Hydref 2019, er y bu rhywfaint o dystiolaeth o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol, “nid yw newid wedi digwydd mor gyflym nac mor eang ag a fwriadwyd”.¹³¹ Yn ogystal, cafodd anhawster mesur yn union faint sy'n cael ei wario ar ofal sylfaenol yn GIG Cymru. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda BILlau i werthuso ac (os oes angen) i wella effeithiolrwydd y fframwaith ariannol o ran cefnogi'r arfer o symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol, ac y dylai BILlau adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd o ran symud adnoddau.

¹²⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 108], 13 Ionawr 2021

¹²⁹ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2020-21: diogelu, adeiladu, newid* Rhagfyr 2020, t.18

¹³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraffau 107 ac 147-148], Ionawr 2021

¹³¹ Swyddfa Archwilio Cymru, *Gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru*, Hydref 2019

136. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod cyfrifon BILlau ar gyfer gofal sylfaenol wedi nodi'r gwariant canlynol am y tair blynedd ddiwethaf (ac eithrio rhagnodi gan feddygon teulu a namyn taliadau cleifion deintyddol a adenillwyd):

- 2019-20 £947.3m.
- 2018-19 £911.7m.
- 2017-18 £876.3m.¹³²

137. Fodd bynnag, nododd fod y mwyafrif o'r cyllid yr oedd yn ei ddyrannu i BILlau heb ei neilltuo, ac felly nad oedd yn fesur cadarn ar gyfer tracio'r modd yr aillbennir cydbwysedd y system yn unol â'r weledigaeth yn *Cymru Iachach* bod mwy o ofal ataliol yn digwydd yn nes at adref. Amlinellodd ddatblygiad mwy o ymgynghori digidol, adsefydlu cymunedol a chanolfannau gofal sylfaenol brys fel tystiolaeth o symudiadau tuag at ofal sylfaenol, a dywedodd:

“We continue to invest in primary care through the delivery of the Primary Care Model for Wales, and in 2021-22 will build on the agreed investment provided in 2020-21 for the primary care contract.”¹³³

138. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym y byddai gofal sylfaenol ymhlith y blaenoriaethau ar gyfer y codiad o £360m ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG, a'i fod yn rhagweld ffocws ar arloesi a darparu gwasanaethau trwy glystyrau gofal sylfaenol ehangach, gan gynnwys dysgu o'r profiad o ymateb i'r pandemig. Tynnodd sylw yn benodol at rôl gofal sylfaenol o ran cynyddu'r rhaglen frechu COVID-19, cyfranogiad posibl meddygfeydd teulu a fferylliaeth gymunedol, a defnydd hyblyg o'r ystâd gofal sylfaenol a lleoliadau eraill. Nododd y byddai blaenoriaeth hefyd yn cael ei rhoi i fuddsoddiad cyfalaf mewn gofal sylfaenol, gan gynnwys gwella adeiladau a'r ystod o wasanaethau y gellir eu darparu.¹³⁴

139. Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y chwe BILl sydd ag ysbytai cyffredinol dosbarth i gyd yn debygol o fabwysiadu'r model Cysylltu'n Gyntaf yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, er na chynhwyswyd dyraniadau penodol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 gan nad oedd y dull

¹³² Llywodraeth Cymru, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22, Rhagfyr 2020, t.15

¹³³ Fel uchod, t.14

¹³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraffau 49 a 143-144], 13 Ionawr 2021

wedi cael ei werthuso eto. Dywedodd nad oedd y gwaith gwerthuso cychwynnol yn nodi unrhyw bryderon ynghylch ansawdd na diogelwch a oedd yn codi o'r model, a bod adborth cleifion ar eu profiad wedi bod yn gadarnhaol. Nododd hefyd fod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r adroddiadau ystadegol, yn benodol i ba raddau y byddai data'n gymharol dros amser.¹³⁵

Atal

140. Dywedodd adroddiad blynyddol y Prif Swyddog Meddygol ar gyfer 2018-19 fod bron i hanner yr oedolion yng Nghymru yn nodi bod ganddynt salwch hirsefydlog, a bod un ymhob pump yn nodi bod ganddynt ddau salwch neu fwy.¹³⁶ Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i nodi bod anweithgarwch corfforol, diet a lefelau gordewdra hefyd yn ffactorau risg sylweddol o ran baich clefydau yng Nghymru. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 yn cynnwys dyraniad o £116.3m ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru (cynnydd o £10m) a £9.07m ar gyfer hybu iechyd (gostyngiad o £626,000).¹³⁷

141. Er na nododd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol unrhyw fuddsoddiad penodol mewn atal, nododd:

“Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG yn disgwyl y bydd dull eang o atal yn cael ei ddefnyddio ym mhob agwedd ar gynllunio. [...] Ein nod yw cymryd camau sylweddol i newid ein hagwedd o drin i atal. Y weledigaeth a sefydlwyd gennym yn Cymru lachach yw canolbwyntio mwy ar atal ac ar ymyriadau cynnar”.¹³⁸

142. Roedd *Diogelu, Adeiladu, Newid* yn nodi bod buddsoddiad mewn cefnogi gwell iechyd meddwl a llesiant yn cynnwys rôl sylweddol i'r trydydd sector o ran atal:

“Mae gwaith amrywiol y 30,000 o sefydliadau trydydd sector yng Nghymru yn cyfrannu at waith atal, o ddarparu amrywiaeth o ymyriadau cynnar megis presgripisynu cymdeithasol a chymorth blynyddoedd cynnar, i gefnogi unigolion mewn argyfwng”.¹³⁹

¹³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 139-141], 13 Ionawr 2021

¹³⁶ Llywodraeth Cymru, *Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2018 i 2019*, 7 Mai 2019

¹³⁷ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb ddrafft 2021-22: llinellau gwariant yn y gyllideb*, Rhagfyr 2020

¹³⁸ Llywodraeth Cymru, *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22*, Rhagfyr 2020, t.8

¹³⁹ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2020-21*, Rhagfyr 2020, t.23

143. Cydnabu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod anghydraddoldebau gofal iechyd ledled Cymru, a nododd y gydberthynas agos rhwng anghydraddoldebau o'r fath ac anghydraddoldebau economaidd:

“So, it's still about the challenges and the inequalities that exist within our country and how they drive inequalities in outcomes in healthcare terms, but also if you look at education and other things as well. All of those things matter together, so it's in our interest, in healthcare terms, for us to have good outcomes and effective outcomes in education. It's in our interest to have an important sense of well-being and emotional well-being for children and young people as well as adults. It's hugely important that we actually do something about levelling up the agenda on the economic success of our communities as well, because that's when we'll start to see a significant shift in healthcare inequalities as well”.¹⁴⁰

144. Yn yr un modd, amlygodd y Gweinidog Iechyd, Llesiant a'r Gymraeg y cydgysylltiad rhwng anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau ehangach:

“...we know that it's much broader than just a medical problem. This is a poverty problem, this is an inequality problem, and so the key thing for me is that we need to keep this focus on a cross-government approach to inequality and to address those issues where possible”.¹⁴¹

145. Gan gydnabod bod pobl ar incwm isel yn wynebu mwy o risg o fod yn ordew ac yn fwy tebygol o brofi niwed ariannol o ganlyniad i'r pandemig, dywedodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wrthym ei bod yn rhagweld cyhoeddi rhaglen waith newydd ym mis Mawrth 2021 i alluogi'r strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach i ymateb i'r pandemig. Nododd fod trafodaethau'n digwydd ar y blaenoriaethau ar gyfer y gwaith hwn, ond y byddent yn cynnwys “ensuring we see a decrease in those inequalities in our society, and an investment of £6.5 million is available for that”.¹⁴²

146. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod y newid tuag at atal yn gofyn nid yn unig am ddewisiadau i Lywodraeth Cymru o ran sut yr oedd yn dyrannu cyllid, ond hefyd am ddewisiadau ar gyfer Billau o ran

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 165], 13 Ionawr 2021

¹⁴¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 124], 20 Ionawr 2021

¹⁴² Cofnod y Trafodion [paragraff 112], 20 Ionawr 2021

sut yr oeddent yn ymateb i'r cyfeiriad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y fframwaith cynllunio.¹⁴³ Esboniodd Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru nad oedd methodoleg y cytunwyd arni'n gyffredinol yn bodoli ar gyfer diffinio gwariant ataliol. Fodd bynnag, dywedodd fod gwaith gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn awgrymu bod gwariant o oddeutu 5.2 y cant yng Nghymru yn cymharu'n ffafriol â gwariant yn y mwyafrif o wledydd eraill y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Nododd fod gwariant yn y mwyafrif o wledydd o dan 3 y cant, a bod yr uchaf heblaw'r DU a Chanada oddeutu 4 y cant.¹⁴⁴ Nododd, fodd bynnag, fod lle i symud y ffocws yng Nghymru o atal eilaidd i atal sylfaenol, yn ogystal ag ystyried gwasanaethau iechyd meddwl a gofal sylfaenol yn ychwanegol at wasanaethau ysbyty a chymunedol.¹⁴⁵

Ein barn ni

147. Wrth graffu ar gyllidebau drafft blynyddoedd blaenorol, rydym wedi codi pryderon ynghylch gallu sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i brif ffrydio gweithgareddau trawsnewid gwasanaethau, yn enwedig o ystyried y galw a'r pwysau o ran costau sydd arnynt a methiant parhaus rhai BILLau i fantoli'r cyfrifon.¹⁴⁶ Credwn fod y gwerthusiadau a wnaed o waith trawsnewid yn amlygu'r pryderon hyn ynghylch prif ffrydio a'r ffocws hyd yma ar newid mwy lleol, ar raddfa fach. Rydym hefyd yn dal i bryderu am y capasiti yn y system i sbarduno trawsnewid ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol, yn enwedig yng nghyd-destun y pandemig.

148. Rydym yn cydnabod bod y *Papur Gwyn ar ail-gydbwyso gofal a chymorth* yn cynnwys cynigion ar gyfer cryfhau'r pwerau sydd ar gael i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas ag integreiddio a thrawsnewid gwasanaethau.¹⁴⁷ Fodd bynnag, mater i'r Llywodraeth Cymru nesaf fydd bwrw ymlaen ag unrhyw gynigion ar ôl yr ymgynghoriad, ac efallai y bydd trefniadau o'r fath yn annhebygol o fod ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22.

149. Yn y cyfamser, credwn fod angen ffocws strategol clir i ysgogi, arwain a phrif ffrydio trawsnewid gwasanaethau a dysgu o gynlluniau a ariennir. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu o arloesi a datblygiadau mewn rhwydweithiau gofal sylfaenol.

¹⁴³ Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 20 Ionawr 2021

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 157], 13 Ionawr 2021

¹⁴⁵ Cofnod y Trafodion [paragraffau 158-160], 13 Ionawr 2021

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, *Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21*, Ionawr 2020, t.9

¹⁴⁷ Llywodraeth Cymru, *Papur Gwyn: ail-gydbwyso gofal a chymorth*, 12 Ionawr 2021

150. Mae angen rhoi digon o flaenoriaeth hefyd i'r symudiad tuag at ofal sylfaenol ac atal yn ystod y broses o adfer ar ôl y pandemig. Yn benodol, prin yw'r wybodaeth yn y gyllideb ddrafft a thystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ynghylch sut y dylid targedu a mynd i'r afael â heriau sylweddol ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach, cyflyrau cronig ac anghydraddoldebau iechyd.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am ei gweledigaeth strategol ar gyfer yr agenda trawsnewid gwasanaethau, a sut y bwriedir ei chyflawni'n ymarferol, ac am sut y bydd yn sicrhau bod y ffocws ar symud tuag at ofal sylfaenol ac atal yn cael ei gyflawni a'i gynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22.

151. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno'r model 'Cysylltu yn Gyntaf', ac i ymgysylltu â'r Senedd ynghylch y dull gyhoeddi adroddiadau ystadegol. Edrychaf ymlaen at gael yr wybodaeth hon maes o law.

9. Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

Gweithlu

Iechyd

152. Mae prinder staff a lefelau absenoldeb wedi bod yn fater penodol yn ystod misoedd y gaeaf yn 2020-21. Mewn datganiad ysgrifenedig ar 31 Rhagfyr 2020, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gadael ei hôl ar lawer o weithwyr rheng flaen ac rydym wedi gweld lefelau uchel o salwch sydd, yn anochel, yn effeithio ar wasanaethau i gleifion. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu wrth i'r feirws gael ei drosglwyddo'n ehangach. Ar hyn o bryd, mae dros 2,000 yn llai o staff ar gael i weithio ddiwedd mis Rhagfyr nag oedd ym mis Medi cyn y don bresennol. Gwaethygyd hyn dros yr ŵyl am fod mwy a mwy o'n gweithlu yn gorfod gwarchod eu hunain eto”¹⁴⁸

¹⁴⁸ Llywodraeth Cymru, [Datganiad ysgrifenedig: COVID-19: y diweddaraf ar y pwysau ar y system iechyd a gofal](#), 31 Rhagfyr 2020

153. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw at bryderon ynghylch costau staff locwm hefyd:

“Er bod niferoedd y gweithlu wedi codi oddeutu 6% rhwng mis Mehefin 2019 a mis Mehefin 2020, mae COVID wedi cael effaith sylweddol ar yr angen am weithlu ac mae staff profiadol [...] Rhagwelir y bydd £195m yn cael ei wario ar staff locwm ac asiantaeth yn 2020-21, o'i gymharu ag alldro o £177m yn 2019-20 a chynnydd o 10% yn y flwyddyn. Fodd bynnag, dylid nodi bod y gwariant hwn yn dal yn anwadal iawn, ac y gallai'r alldro ar gyfer 2020-21 fod yn wahanol iawn i'r rhagolygon presennol.”¹⁴⁹

154. Cydnabu Coleg Brenhinol y Meddygon fod cyllid wedi'i dargedu wedi cynorthwyo clinigwyr “to get by in the next 12 months”. Galwodd am ymrwymadau cyllido tymor hwy i gefnogi'r broses o roi strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ar waith, gan ddadlau mai “the most effective way to reduce NHS backlogs and ease pressure is to increase the workforce that is available to treat patients”.¹⁵⁰

155. Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei dystiolaeth i ni fod strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a ddatblygwyd gan AaGIC a GCC wedi cael ei lansio ym mis Hydref 2020, a bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynllun comisiynu addysg a hyfforddiant GIG Cymru ar gyfer 2021-22. Cefnogir y cynllun gan gyfanswm buddsoddiad o £227.9m, cynnydd o £17.5m o'i gymharu â 2020-21.¹⁵¹ Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y pecyn hyfforddi yn canolbwyntio ar sicrhau y gallai pobl gael mynediad at yr hyfforddiant (ac ail-hyfforddiant) y gallai fod ei angen arnynt trwy gydol eu gyrfa yn y gwasanaeth iechyd, ynghyd â chefnogi, cadw ac ailgyflenwi'r gweithlu.¹⁵²

156. Amlygodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg rôl y gweithlu iechyd meddwl o ran datblygu a darparu gwasanaethau therapi seicolegol. Cydnabu fod datblygu'r gweithlu sy'n ofynnol ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn cymryd amser, ond dywedodd wrthym y byddai strategaeth y gweithlu dan

¹⁴⁹ Llywodraeth Cymru, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.10

¹⁵⁰ Coleg Brenhinol y Meddygon, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 \(Saesneg yn unig\)](#), Tachwedd 2020, t.2

¹⁵¹ Llywodraeth Cymru, [Crffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.9

¹⁵² Cofnod y Trafodion [paragraffau 96-98], 13 Ionawr 2021

arweiniad AaGIC a GCC yn darparu “a very clear pathway for how we can address that”.¹⁵³

Gofal cymdeithasol

157. Mewn tystiolaeth i’n gwaith ar effaith y pandemig COVID-19 ar ofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl, amlygodd ADSS Cymru yr hyn a ddisgrifiodd fel yr effaith ddinistriol (“devastating”) ar bobl sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, yn enwedig y rhai sy’n gweithio ym maes gofal preswyl:

“The intense pressure on these workers and the impact on their current and future mental health and wellbeing continues to be a source of concern for ADSS Cymru’s members”.¹⁵⁴

158. Cydnabu’r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol effaith y pandemig ar staff yn y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys y straen emosïynol yr oeddent wedi’i hwynebu.¹⁵⁵ Dywedodd wrthym fod gweithwyr gofal cymdeithasol, yn ystod y pandemig, wedi dod yn llawer mwy gweladwy, ac y byddai hyn yn darparu cyfleoedd i wella a phroffesiynoli'r sector. Meddai:

“We have been trying also to professionalise the workforce through Social Care Wales's WeCare Wales recruitment and retention campaign, and we're having a newly established jobs portal. So, some of the extra money that's going to Social Care Wales will be able to be used to further support the workforce. And, again, we've got the social care forum, which is going to be working there to try to improve positions”.¹⁵⁶

Cyflog

Iechyd

159. Wrth ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft 2021-22, croesawodd Conffederasiwn GIG Cymru y cymorth ychwanegol a ddarparwyd yng nghyllideb 2020-21 ar gyfer y fargen gyflog 'Agenda ar gyfer Newid'. Disgrifiodd y fargen gyflog fel “particularly important in terms of supporting the recruitment

¹⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraffau 74-75], 20 Ionawr 2021

¹⁵⁴ [C87 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru](#)

¹⁵⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 13 Ionawr 2021

¹⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 71], 13 Ionawr 2021

and retention of NHS staff at a time when the demand on the NHS Wales workforce has increased”.¹⁵⁷

160. Yn *Diogelu, Adeiladu, Newid*, nododd Llywodraeth Cymru y bydd y dyraniadau cyllideb drafft ar gyfer 2021-22 yn darparu ar gyfer “cynnydd mewn cyflogau ar gyfer ein staff gweithgar ac ymroddedig yn y GIG”.¹⁵⁸ Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mai'r bwriad gyda rhywfaint o'r codiad o £360m yng nghyllideb graidd gwasanaethau'r GIG yw talu costau'r broses adolygu cyflogau annibynnol.¹⁵⁹ Fodd bynnag, dywedodd wrthym nad oedd mewn sefyllfa i ymrwymo i fodloni unrhyw argymhellion sydd ar ddod o'r broses adolygu cyflogau, gan y byddai fforddiadwyedd hyn yn dibynnu'n rhannol ar benderfyniadau sydd eto i'w cymryd gan Drysorlys EM mewn perthynas â pholisi cyflog y sector cyhoeddus.¹⁶⁰

Gofal cymdeithasol

161. Croesawodd ADSS Cymru y camau i gyflwyno'r cerdyn gweithiwr gofal cymdeithasol a'r taliad bonws o £500 i staff gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, dadleuodd y dylid cynnig yr un cyfleoedd ac amodau i weithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, ag a gynigir i weithwyr y GIG.¹⁶¹

162. O ran y dyraniad o £50m ar gyfer Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, dywedodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym y byddai'n edrych eto ar sut y cafodd ei ddefnyddio i gefnogi'r gweithlu:

“So, one of the important things is that we have now developed the social care forum, which is looking to deliver on terms and conditions for the social care workforce, and, in view of that, I think that we will be discussing the criteria for the use of that additional money with the local authorities for the next year”.¹⁶²

¹⁵⁷ Confederasiwn GIG Cymru, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 \(Saesneg yn unig\)](#), Tachwedd 2020, t.2

¹⁵⁸ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Ddrafft 2020-21: diogelu, adeiladu, newid](#), Rhagfyr 2020, t.17

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 48], 13 Ionawr 2021

¹⁶⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 105], 13 Ionawr 2021

¹⁶¹ [C87 Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁶² Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 13 Ionawr 2021

163. Nododd yn benodol fod awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r Grant i gynorthwyo darparwyr gofal cymdeithasol preifat i dalu'r cyflog byw go iawn i'w staff, yn ogystal â rheoli pwysau eraill o ran y gweithlu.¹⁶³

Ein barn ni

164. Mae staff ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod y pandemig, ac rydym yn ddiolchgar iddynt i gyd am eu hymroddiad a'u gwaith caled. Mae'n bwysig bod staff sydd wedi bod yn gweithio ar reng flaen yr ymateb i'r pandemig yn cael eu cefnogi, ac rydym yn croesawu'r ffaith y bydd y cynllun cymorth iechyd meddwl i 60,000 o weithwyr gofal iechyd yng Nghymru yn parhau yn 2021-22, a'r bwriad i estyn y gwasanaeth ymhellach i gynnwys staff gofal cymdeithasol.

165. Rhaid i'r modd y cynllunnir y gweithlu yn y gwasanaeth iechyd adlewyrchu'r pwysau y mae staff yn parhau i'w hwynebu, y trawma y maent wedi'i brofi, a risgiau cynyddol o ddiffygio wrth i'r pandemig barhau. Hefyd, bydd angen i oblygiadau'r pandemig ar gyfer y gweithlu – ar lefel unigol ac ar lefel gwasanaethau – gael eu hystyried wrth i Gymru symud tuag at adferiad, gan gynnwys yr angen maes o law i fynd i'r afael ag effaith y pandemig ar wasanaethau nad ydynt yn ymwneud â COVID-19. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni strategaeth y gweithlu a chynllun comisiynu addysg a hyfforddiant GIG Cymru, ym mlwyddyn ariannol 2021-22 a'r tu hwnt

166. Yn ein hadroddiad cyntaf ar effaith y pandemig ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gwnaethom gydnabod goblygiadau diffyg cydraddoldeb rhwng y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol:

“I lawer, gall straen ariannol yr ychydig fisoedd diwethaf arwain at bwysau i anwybyddu symptomau a chyingor, a mynd i'r gwaith. Mae yna risgiau sylweddol yma o ran y gweithlu gofal cymdeithasol oherwydd, er eu bod yn darparu gwasanaeth hanfodol, nid oes ganddynt yr un telerau ac amodau â'u cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd”.¹⁶⁴

¹⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 13 Ionawr 2021

¹⁶⁴ Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, *Ymchwiliad i effaith Covid-19 a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 1*, Gorffennaf 2020, t.74

167. Rydym yn croesawu'r taliad bonws a gafodd gweithwyr gofal cymdeithasol yn 2020-21, a'r potensial i awdurdodau lleol ddefnyddio'r dyraniad o £50m i Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22 i hwyluso talu'r cyflog byw go iawn i staff gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, credwn fod angen datrysiad tymor hwy i ariannu a threfnu gofal cymdeithasol a hynny ar frys er mwyn rhoi atebion cynaliadwy ar waith i'r materion recriwtio a chadw parhaus ym maes gofal cymdeithasol.

10. Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

Cefndir a gosod blaenoriaethau

168. Ym mis Hydref 2020, creodd Prif Weinidog Cymru rôl newydd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Mae'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn rhan o'r portffolio hwn, gyda chyfrifoldeb am chwaraeon elitaidd, chwaraeon cymunedol, gweithgarwch corfforol a hamdden egniol yng Nghymru, gan gynnwys noddi Chwaraeon Cymru.

169. Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon yn cael ei sianelu drwy Chwaraeon Cymru, sef y sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Chwaraeon Cymru yw'r prif gynghorydd ar faterion chwaraeon i Lywodraeth Cymru ac mae'n gyfrifol am ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol i chwaraeon elitaidd a chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru. Nodir blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru, a thrwy gamau gweithredu a chanlyniadau yn ei gynllun busnes.

170. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth fod monitro effeithiolrwydd cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wneud mewn sawl ffordd, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd gyda Chwaraeon Cymru am ei flaenoriaethau strategol a chyfarfodydd monitro chwarterol i drafod cynnydd a chanlyniadau.¹⁶⁵ Dywedodd wrthym fod hyn yn cynnwys cyfarfodydd wythnosol rhwng Chwaraeon Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod defnydd Chwaraeon Cymru o'r dyraniadau cyllid yn cwrdd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.¹⁶⁶ Yn ogystal, nododd y Dirprwy Weinidog ei fod yn cwrdd â chadeirydd a phrif weithredwr Chwaraeon Cymru i

¹⁶⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22, Rhagfyr 2020, t.6

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraffau 141 ac 143], 20 Ionawr 2021

drafod blaenoriaethau polisi a chynnydd o ran cyflawni'r llythyr cylch gwaith a'r cynllun busnes.¹⁶⁷

Cronfeydd a rhaglenni parhaus

171. Trwy Chwaraeon Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi nifer o raglenni a chronfeydd parhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru.** Cydweithio rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r nod o gynorthwyo a sbarduno gwaith mewn partneriaeth ar draws gweithgarwch corfforol, gan gynnwys hamdden egniïol. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig nododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth fod COVID-19 wedi torri ar draws y momentwm a fagwyd gan Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'i fod yn bwriadu iddi gael ei hadfywio yn 2021-22. Byddai'r gwaith hefyd yn cael ei ategu gan Sefydliad Gweithgarwch Corfforol Cymru, consortiwm o wyth prifysgol yng Nghymru a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru i ddarparu adnodd ymchwil cydweithredol i gefnogi ymyriadau gweithgarwch corfforol seiliedig-ar-dystiolaeth a gwerthusiadau o gynnydd.
- **Y Gronfa Iach ac Egniïol.** A hithau'n cael ei darparu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r Gronfa (£5m dros dair blynedd) yn dechrau ar ei thrydedd flwyddyn yn 2021-22. Mae'r Gronfa'n cefnogi sefydliadau sy'n mynd ati'n frwd i hyrwyddo a galluogi gweithgarwch iechyd ar gyfer grwpiau yn y boblogaeth sy'n gwneud ychydig o weithgarwch corfforol neu ddim o gwbl. Nododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth fod prosiectau'r Gronfa wedi'u cwtogi neu eu hatal dros dro yn ystod 2020-21, ond ei fod yn gobeithio eu gweld yn aildechrau wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.
- **Pwysau Iach: Cymru Iach.** Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i fuddsoddi cyllid ac adnoddau i gynnal Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach. Amlygodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ystod o feysydd ffocws, gan gynnwys buddsoddiad parhaus yn y fenter

¹⁶⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22, Rhagfyr 2020, t.6

nofio am ddim a chynllun Hamdden Egniol 60+ newydd a fydd yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2021.

- **Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol.** Disgrifiodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol fel y buddsoddiad strategol mwyaf arwyddocaol y bydd Chwaraeon Cymru yn ei wneud yn 2020-21, a dywedodd mai ei nod yw trawsnewid y ffordd y mae chwaraeon a chyfleoedd corfforol lleol yn cael eu rheoli a'u darparu. Bydd y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yn sefydlu pum partneriaeth chwaraeon ranbarthol ledled Cymru erbyn 2022-23 i gynrychioli buddiannau, a chael eu cynrychioli gan, ystod eang o sefydliadau. Bydd y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol yn datganoli cyfrifoldeb am fuddsoddiad mewn chwaraeon ar sail amgylchiadau lleol ac anghenion cymunedau.
- **Nofio am ddim.** O fis Medi 2019, cafodd pobl ifanc a phobl hŷn dros 60 oed o ardaloedd amddifadus eu blaenoriaethu o dan y fenter nofio am ddim ddiwygiedig. Nododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Hamdden mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod y pandemig wedi atal awdurdodau lleol rhag cyflawni'r fenter fel a fwriadwyd. O ganlyniad, mae'r offeryn casglu data cyfranogi wedi cael ei ailwerthuso a bydd yn cael ei ailgyhoeddi i awdurdodau lleol. Bydd yn cael ei ddefnyddio i gasglu data ac astudiaethau achos wedi'u hôl-ddyddio i Hydref 2019. Disgwylir i'r data a gwerthusiad annibynnol o'r dull gael eu cyhoeddi yn hydref 2021. O fis Ebrill 2020, gostyngwyd cyllid ar gyfer y fenter i £1.5m y flwyddyn. Esboniodd y Dirprwy Weinidog mai'r bwriad fu addasu'r cyllid a ryddhawyd gan y gostyngiad at ddibenion gwahanol i gefnogi'r camau gweithredu yng Nghynllun Cyflawni Pwysau Iach Cymru Iach. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig, cafodd cyllideb Chwaraeon Cymru 2020-21 ei haddasu at ddibenion gwahanol i gefnogi'r sector a diogelu'r cyrff a'r sefydliadau sy'n cyflawni mentrau fel y fenter nofio am ddim.¹⁶⁸

¹⁶⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22, Rhagfyr 2020

Dyraniadau cyllid ar gyfer chwaraeon

Cyllid adnoddau

172. Mae'r dyraniadau cyllid ar gyfer chwaraeon yn rhan o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Cyfanswm y dyraniad adnoddau ar gyfer y Cam Gweithredu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yw £22.417m, sy'n ostyngiad o £307,000 o'i gymharu â chyllideb derfynol Llywodraeth Cymru 2020-21. Mae'r Cam Gweithredu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yn cynnwys:

- £22.417m a ddyrennir i Llinell Wariant yn y Gyllideb Chwaraeon Cymru, sy'n cynrychioli gostyngiad o £150,000 o'i gymharu â chyllideb derfynol 2020-21. Mae hyn yn adlewyrchu'r ad-daliad o £150,000 ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer 2021-22. Yn 2019-20, darparwyd £450,000 ar gyfer y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd sydd i'w ad-dalu dros dair blynedd gan ddechrau yn 2020-21. Bydd yr ad-daliad cyntaf yn cael ei ddangos yn y Drydedd Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21. Yn ogystal, mae'r dyraniad yn cynnwys darpariaeth heblaw arian parod o £779,000 miliwn ar gyfer dibrisiant.
- Nid oes unrhyw gyllid wedi'i ddyrannu i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymorth i Chwaraeon yng nghyllideb ddrafft 2021-22, sy'n cynrychioli gostyngiad o £157,000 o'i gymharu â 2020-21. Nododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod y cyllid hwn wedi'i symud i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymorth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon Lleol er mwyn alinio'r cyllidebau sy'n cyflawni ar draws y portffolio gan hefyd gynnal Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar wahân ar gyfer y cyrff a noddir a'r sefydliadau partner. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymorth ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon yn cynnwys £2.817m yn 2021-22. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymrwymadau sy'n bodoli eisoes megis Cynllun Nofio Am Ddim y Lluoedd Arfog a'r Gemau Trefol (a oedd i fod i gael eu darparu yn 2020 gan yr Urdd ond y bu'n rhaid eu gohirio o ganlyniad i COVID-19).¹⁶⁹

173. Yn ogystal, mae cynnydd o £2m yng Ngwariant a Reolir yn Flynyddol Darpariaeth Pensiwn Chwaraeon Cymru.

¹⁶⁹ Fel uchod, t.3

Cyllid cyfalaf

174. Cyfanswm y dyraniad cyfalaf ar gyfer y Cam Gweithredu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yw £6.402m, sy'n cynrychioli cynnydd o £3.284m o'i gymharu â chyllideb derfynol 2020-21. Mae hyn yn adlewyrchu dyraniadau ychwanegol o £3.3m a gaiff eu gwrthbwysu gan ad-daliad cyllid Buddsoddi i Arbed o £16,000 a ddefnyddiwyd i brynu cwch hwylio ym Mhlas Menai.¹⁷⁰

175. Dyrennir £6.629m o'r dyraniad cyfalaf i Chwaraeon Cymru, gan gynnwys £5m ar gyfer y Gronfa Cyfleusterau Chwaraeon Strategol, sy'n amcanu at alluogi mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch awyr agored. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth fod hyn hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu'n rhyngwladol ac i helpu i gynnal digwyddiadau rhyngwladol.¹⁷¹ Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai'r arian yn cael ei fuddsoddi yn unol â strategaeth y cytunwyd arni rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a'r cyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol.¹⁷² Esboniodd y Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth fod Chwaraeon Cymru wedi gweithio gyda chyrff llywodraethu chwaraeon i gyflwyno cynigion prosiect gerbron i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru. Nododd fod y cynnydd yn y Gronfa ar gyfer 2021-22 yn adlewyrchu ei llwyddiant yn 2020-21.¹⁷³

176. Dyrennir £1.3m o arian cyfalaf i fynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw sy'n gritigol i'r busnes, yn enwedig y system wresogi a'r cyfarpar pyllau yng Nghanolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru ym Mhlas Menai. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog fod y buddsoddiad hwn, gan weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon, yn anelu at sicrhau arbedion effeithlonrwydd ynni tymor hir a lleihau'r ôl troed carbon yn sylweddol.¹⁷⁴

177. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn rhoi cyfrif am ostyngiad yng ngwerth ad-dalu'r Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon (o £254k i £227k). Ariennir y Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon â chyfalaf trafodion ariannol, sy'n ad-daladwy i Drysorlys EM. Mae cyfanswm y tri benthyciad a roddwyd i awdurdodau lleol yn

¹⁷⁰ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm ar gynigion y Cyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.5

¹⁷¹ Fel uchod, t.4

¹⁷² Cofnod y Trafodion [paragraff 162], 20 Ionawr 2021

¹⁷³ Cofnod y Trafodion [paragraff 167], 20 Ionawr 2021

¹⁷⁴ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm ar gynigion y Cyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.5

£1.8m ac maent yn ad-daladwy yn llawn dros gyfnod o saith mlynedd. Dechreuodd y broses ad-dalu yn 2018-19, ac mae cyfanswm o £910k yn parhau i fod heb ei dalu.

Incwm Chwaraeon Cymru

178. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn creu ac yn derbyn incwm o ffynonellau eraill yn ychwanegol at yr arian cymorth grant y mae'n ei gael gan Lywodraeth Cymru.¹⁷⁵ Nododd Chwaraeon Cymru yn ei adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019-20 iddo gael incwm o ychydig llai na £3m. O hyn, roedd £2.9m yn ymwneud â'r Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol, yr oedd ychydig dros £1m ohono'n deillio o archebu cyrsiau.¹⁷⁶

179. Effeithiwyd ar ganolfannau chwaraeon a chyfleusterau chwaraeon awyr agored gan y cyfyngiadau a roddwyd mewn grym o ganlyniad i'r pandemig. Mae adroddiad blynyddol a chyfrifon Chwaraeon Cymru ar gyfer 2019-20 yn tynnu sylw at ddifrifoldeb yr effaith, a'r goblygiadau ar gyfer ei ddull o weithio, creu incwm a chynlluniau ar gyfer cefnogi'r sector a darparu yn y dyfodol.¹⁷⁷ Nododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth fod cynllun cadw swyddi Llywodraeth y DU wedi rhoi rhywfaint o gymorth i Chwaraeon Cymru, ond disgrifiodd effaith y pandemig fel "an impossible situation, really, in terms of commercial income because, clearly, many of the major facilities are closed". Cydnabu y gallai fod angen cyllid pellach i fynd i'r afael â'r diffyg incwm, ond y byddai angen ystyried unrhyw benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU hefyd.¹⁷⁸

Lefelau gweithgarwch corfforol ac anghydraddoldeb

180. Amlygodd *Diogelu, Adeiladu, Newid* effaith y pandemig ar yr anghydraddoldebau presennol, gan nodi yr effeithiwyd ar rai cymunedau'n fwy nag eraill ac mai rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed sydd wedi cael eu taro galetaf.¹⁷⁹ Dangosodd astudiaeth gan ComRes, a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru ym mis Mai 2020, fod pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn llawer mwy tebygol o fod wedi nodi cwmp ym eu lefelau gweithgarwch corfforol

¹⁷⁵ Yn ogystal, mae Chwaraeon Cymru hefyd yn cael cyllid gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol y paratwir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar wahân ar ei gyfer.

¹⁷⁶ Chwaraeon Cymru, *Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019-20*, Hydref 2020, t.93

¹⁷⁷ Fel uchod, t.11

¹⁷⁸ Cofnod y Trafodion [paragraffau 170-171], 20 Ionawr 2021

¹⁷⁹ Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2020-21: diogelu, adeiladu, newid*, Rhagfyr 2020

yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud cychwynnol. Dywedodd 9 y cant o'r ymatebwyr nad oedd eu plant yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol ar ddiwrnod arferol, ond roedd hyn yn codi i 14 y cant ar gyfer plant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.¹⁸⁰ Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Hamdden fod ymchwil gan Chwaraeon Cymru wedi canfod bod lefelau cyffredinol o weithgarwch corfforol yn ystod y pandemig yn debyg yn fras i'r rhai cyn i gyfyngiadau COVID-19 gael eu cyflwyno gyntaf ym mis Mawrth 2020, ond:

“...mae'n ymddangos bod y pandemig wedi ehangu anghydraddoldebau o ran cyfranogiad ar draws rhywedd, statws economaidd-gymdeithasol, salwch neu gyflwr hirsefydlog, ac oedran. Er bod tystiolaeth i awgrymu y bu pegynu o ran gweithgarwch yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol (gyda chynnydd yn nifer y bobl sy'n gwneud 'dim gweithgarwch corfforol' a'r rheini sy'n gwneud gweithgarwch corfforol 'bob dydd'), mae'r arolwg presennol yn awgrymu bod y duedd hon yn cael ei gwrthdroi gyda rhagor o oedolion yn gwneud 'rhywfaint' o weithgarwch erbyn hyn. Mae'r adborth yn awgrymu bod plant yng Nghymru bellach yn gwneud mwy o chwaraeon/gweithgarwch corfforol y tu allan i'r ysgol na chyn i gyfyngiadau COVID19 gael eu cyflwyno am y tro cyntaf. Yr eithriad i hyn yw oedolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sy'n fwy tebygol o ddweud bod eu plentyn/plant bellach yn gwneud llai o weithgarwch ar ddiwrnod arferol yn ystod y penwythnos”.¹⁸¹

181. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei fod yn “very concerned that, really, I have not really been able to carry out the responsibility that I have across government for promoting physical activity”. Dywedodd ei fod yn arbennig o bryderus am lefelau gweithgarwch corfforol gostyngol ymhlith pobl ifanc, a briodolodd yn rhannol i gau ysgolion yn ystod y pandemig, a'r ansicrwydd parhaus ynghylch pryd y byddai ysgolion yn gallu ailagor. Meddai wrthym:

“... there is no simplistic way of tackling this; it's just continuing to encourage people to take advantage of the opportunities mainly to exercise in the outdoors in a situation where, obviously, gyms and

¹⁸⁰ Chwaraeon Cymru, [Y bwlch anghydraddoldeb wedi cynyddu yn ystod y cyfyngiadau symud](#), 27 Mai 2020

¹⁸¹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.7-8

sports centres are not available for use, and unlikely to be for some time".¹⁸²

182. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth fod dyraniad cyllid Chwaraeon Cymru ar gyfer 2021-22 yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, a nododd fod Chwaraeon Cymru wedi diwygio ei strategaeth fuddsoddi ac wedi rhoi meini prawf ar waith i fynd ati'n benodol i dargedu'r cyrhaeddiad ac effaith y gall partneriaid eu cael ar wahanol amcanion cydraddoldeb. Er enghraifft, mae cynlluniau Cronfa Byddwch yn Egnïol Cymru a Chronfa Cadernid Chwaraeon a Hamdden wedi blaenoriaethu ceisiadau am fuddsoddiad a fyddai'n sicrhau bod chwaraeon ar gael i bawb.¹⁸³

183. Esboniodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y byddai'r dull yng nghynigion y gyllideb ddrafft i gynnal cyllid refeniw a chynyddu buddsoddiad cyfalaf yn galluogi Chwaraeon Cymru i fuddsoddi mewn rhaglenni a phartneriaethau allweddol i roi anogaeth ar gyfer gweithgarwch corfforol. Tynnodd sylw yn benodol at y Gronfa Iach ac Egnïol a fyddai â rôl, meddai, yn yr adferiad ar ôl y pandemig.¹⁸⁴

184. Cydnabu'r Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth y rhwystr y gallai diffyg cyfleusterau addas ei achosi i gyfranogiad mewn chwaraeon, yn enwedig i bobl ifanc. Dywedodd wrthym y byddai'r buddsoddiad cyfalaf uwch yng nghyllideb ddrafft 2021-22 yn cefnogi cyfranogiad trwy gynyddu mynediad at gyfleusterau chwaraeon.¹⁸⁵ Awgrymodd, trwy werthuso a blaenoriaethu ceisiadau cyllid yn effeithiol, y gallai buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau hefyd helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig ar gyfer cymunedau mwy amddifadus.¹⁸⁶

Ein barn ni

185. Yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2020-21, gwnaethom gydnabod rôl Chwaraeon Cymru o ran helpu i ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, ond gwnaethom ofyn am sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru a oedd goruchwyliaeth wleidyddol briodol dros

¹⁸² Cofnod y Trafodion [paragraff 172], 20 Ionawr 2021

¹⁸³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm ar gynigion y Gyllideb Ddrafft Chwaraeon ar gyfer 2021-22, Rhagfyr 2020, t.10

¹⁸⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 180], 20 Ionawr 2021

¹⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 182], 20 Ionawr 2021

¹⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 185], 20 Ionawr 2021

Chwaraeon Cymru a'i weithrediad.¹⁸⁷ Rydym yn cydnabod y cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Dirprwy Weinidog, ei swyddogion a Chwaraeon Cymru, ond nid ydym wedi ein perswadio eto bod Llywodraeth Cymru wedi dangos bod trefniadau digon cadarn ar waith i fonitro sut mae'r cyllid a ddyrennir i Chwaraeon Cymru yn cael ei wario, sut y mae'r canlyniadau a gyflawnir ganddo'n cael eu gwerthuso, nac i ba raddau y mae'r cyllid yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru neu ei gweledigaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion am y trefniadau sydd ar waith i fonitro sut mae'r cyllid a ddyrennir i Chwaraeon Cymru yn cael ei wario, sut mae canlyniadau'n cael eu gwerthuso, a sut mae Chwaraeon Cymru yn rhoi sicrwydd iddi bod y cyllid yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

186. Gwnaethom hefyd dynnu sylw yn ein hadroddiad blaenorol at effaith gadarnhaol gweithgarwch corfforol ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl, a rôl gweithgarwch corfforol yn yr agenda atal. Fodd bynnag, ein barn ni oedd bod Llywodraeth Cymru wedi colli'r cyfle i ddefnyddio ei chyllideb yn 2020-21 i gyfleu'r neges honno.¹⁸⁸

187. Rydym yn dal i fod o'r farn bod gweithgarwch corfforol yn llinyn allweddol o'r agenda atal, ac yn ffactor hanfodol yn iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru.

188. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae'r pandemig wedi'u cyflwyno i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ystod 2020. Serch hynny, rydym yn pryderu am effaith y gostyngiad mewn lefelau gweithgarwch corfforol yn ystod y pandemig yn y tymor byr a'r tymor hwy, yn enwedig gwaethygu'r anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli ar sail rhyw, statws economaidd-gymdeithasol, salwch a chyflyrau hirsefydlog, ac oedran.

189. Credwn ei bod yn hanfodol annog pobl ledled Cymru i fod yn egnïol yn gorfforol egnïol, hyd y bo hynny'n ddiogel ac yn bosibl yn ystod y pandemig. Rydym yn cydnabod y gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i bobl fod yn egnïol mewn ffyrdd gwahanol i'r ffyrdd y buont yn egnïol yn flaenorol o bosibl er mwyn eu cadw hwy a chadw eraill yn ddiogel. Efallai hefyd y bydd yn rhaid wrth ddull creadigol gan Lywodraeth Cymru i helpu i adnabod ffyrdd y gall pobl fod yn gorfforol egnïol

¹⁸⁷ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, *Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21*, Ionawr 2020, t.34

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, *Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21*, Ionawr 2020, t.34

gan hefyd gydymffurfio â'r cyfyngiadau iechyd cyhoeddus, a ffyrdd o gynllunio'r cyfyngiadau sy'n cadw pobl yn ddiogel heb gyfyngu'n ddiangen ar gyfleoedd i fod yn egnïol.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod negeseuon iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw i bobl o bob oed fod yn gorfforol egnïol, ac yn helpu pobl ledled Cymru i adnabod ffyrdd iddynt barhau i fod yn gorfforol egnïol o fewn cyfyngiadau COVID-19.

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell, wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyfyngiadau COVID-19, a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig, bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pwysigrwydd gweithgarwch corfforol ac yn ceisio sicrhau, lle y bo'n bosibl ac yn ddiogel gwneud hynny, nad yw cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn cael eu lleihau yn ddiangen.

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion y cyllid a fydd ar gael, naill ai o'r dyraniadau presennol neu ddyraniadau cyllid pellach, er mwyn sicrhau, wrth i'r cyfyngiadau COVID-19 ddechrau cael eu llacio, bod pobl o bob oed, ac yn enwedig y rhai o gymunedau sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i gynyddu eu gweithgarwch corfforol yn ddiogel.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell bod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yn dangos yn gliriach y rôl sylweddol y gall cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol ei chwarae wrth gyflawni'r agenda atal.

11. Cyfnod pontio'r UE

190. Ymhlith y materion a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas ag effaith diwedd cyfnod pontio'r UE ar y sector iechyd mae pwysau o ran costau ar draws y sector cyhoeddus¹⁸⁹ a goblygiadau ar gyfer recriwtio meddygol.¹⁹⁰ Wrth ymateb i'r cytundeb masnach ar 24 Rhagfyr 2020, nododd Conffederasiwn y GIG y dylai gynnig "a measure of much-needed certainty and security for the NHS, our

¹⁸⁹ Conffederasiwn GIG Cymru, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 \(Saesneg yn unig\)](#), Tachwedd 2020

¹⁹⁰ Coleg Brenhinol y Meddygon, [Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 \(Saesneg yn unig\)](#), Tachwedd 2020

partners and our patients”, ond nododd “there is still a risk of significant disruption to the NHS’s ability to care for its patients”.¹⁹¹

191. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod £0.26m wedi'i ddyrannu yn 2020-21 i weithgareddau gyda phartneriaid i sicrhau proses bontio esmwyth i'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd pe bai anghenion penodol yn dod i'r amlwg yn 2021-22, efallai y byddai angen cyllid pellach. Yn ogystal, nododd:

- Y cyfraniad o £0.237m tuag at sicrhau cyflenwadau parhaus o nwyddau critigol (gan gynnwys dyfeisiau meddygol a nwyddau traul clinigol).
- Y bu'n rhaid i'r gyllideb ystyried costau uniongyrchol swyddogaethau ychwanegol sy'n dod i ran Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o ganlyniad i adael yr UE.¹⁹²

192. Tynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw hefyd at y cynllunio a oedd wedi digwydd i baratoi'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Nododd fod risgiau'n parhau i fod mewn perthynas â'r potensial ar gyfer amharu ar fasnach wrth i'r berthynas newydd ymsefydlu. Cadarnhaodd fod cynlluniau wrth gefn ar gyfer dulliau amgen o ddarparu cyflenwadau iechyd a gofal cymdeithasol critigol - fel y brechlyn Pfizer COVID-19 - pe amherid ar y cyflenwad, er y nodwyd y byddai dewisiadau amgen o'r fath yn arwain at gostau uwch.¹⁹³ Yn ogystal, dywedodd wrthym y byddai system fewnfudo newydd y DU yn cyflwyno rhai heriau a chostau ychwanegol ar gyfer recriwtio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig o ganlyniad i'r capiau cyflog.¹⁹⁴

Ein barn ni

193. Rydym yn croesawu'r sicrwydd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod cynlluniau wrth gefn ar waith pe bai unrhyw amharu ar ddarparu cyflenwadau iechyd a gofal cymdeithasol critigol, yn enwedig brechlyn

¹⁹¹ Conffederasiwn y GIG, '[NHS Confederation welcomes 'certainty and security' of Brexit trade deal but warns of disruption risk](#)' 24 Rhagfyr 2020

¹⁹² Llywodraeth Cymru, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22](#), Rhagfyr 2020, t.23-24

¹⁹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 169], 13 Ionawr 2021

¹⁹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 98-99], 13 Ionawr 2021

Pfizer COVID-19. Byddwn yn parhau i ymddiddori yn y mater hwn trwy gydol gweddill tymor y Senedd hon.